Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct




# Gwneud gwahaniaeth

## Adroddiad effaith 2019/20



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID®

CSE





# Cynnwys


Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol 4

Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud 6

Ein gwaith ac effaith ar amrantiaid 7

Crynodeb gweithredol 8

Ein cenhadaeth a gwerthoedd 11

Gwella hyder y cyhoedd yn atebolrwydd yr heddlu 12

Defnyddio dysg i wella arferion plismona 24

Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu 36

Sicrhau ein bod yn sefydliad effeithiol 46

# Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Fy mhleser yw cyflwyno Adroddiad Effaith 2019/20 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur i'r IOPC, yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu ers sefydlu ym mis Ionawr 2018.**



Mae'r cyhoedd yn disgwyl atebolrwydd gan swyddogion heddlu a staff nad ydynt yn cyrraedd y safonau proffesiynol y mae'r gymuned yn eu disgwyl, yn gwbl deg. Mae ein rôl yn goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yn ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, yn cynnwys marwolaethau, yn hanfodol i'r cyhoedd gael hyder yn arferion yr heddlu.

Er bod atebolrwydd swyddogion unigol am gamymddygiad yn bwysig, cawn fwy o effaith trwy'r themâu a'r ddysg a adnabyddir gennym sy'n helpu i gryfhau arferion yr heddlu yn ehangach. Cryfhawyd hyn ymhellach gan ddiwygiadau deddfwriaethol a wnaed ym mis Chwefror eleni, sy'n rhoi rhagor o bwyslais ar ddysg fel adnodd allweddol wrth wella arferion yr heddlu.

Er bod y rhan fwyaf o'r system gwynion yn cael ei gweinyddu'n lleol gan heddluoedd, goruchwylir system gwynion yr heddlu ar y cyfan gan yr IOPC. Mae ein swyddogaeth adolygu yn rhan bwysig o'n rôl fel corff goruchwylio, gan ein caniatáu i ystyried ansawdd pryderon ynghylch cwynion ac ymchwiliadau lleol. Eleni, bu i ni ddelio â 2,800 o apeliadau, y cafodd cyfran sylweddol ohonynt eu cadarnhau. Mae apeliadau yn ein galluogi i adnabod a rhannu dysgu i wella arferion yr heddlu, a gallant arwain at ganlyniadau gwahanol i rai achwynwyr.

Cwblhawyd dros 700 o ymchwiliadau gennym i faterion difrifol a sensitif, gyda ffocws parhaus ar wella prydlondeb ac ansawdd ein gwaith. Golygodd ein hymchwiliadau y bu'n rhaid i rai swyddogion wynebu camau disgyblu neu ddiswyddiad o luoedd, ond bu iddynt hefyd adnabod bod yr heddlu wedi gweithredu yn briodol, rhesymol a chymesurol mewn sawl achos.

Yn fwy sylweddol, bu i'n gwaith adnabod argymhellion dysgu a helpodd i hybu newidiadau lleol a chenedlaethol i arferion yr heddlu, o wneud ymlidiau tactegol yn ddiogel i'r heddlu i gryfhau'r

***Cawn fwy o effaith trwy'r themâu a'r ddysg a adnabyddir gennym sy'n helpu i gryfhau arferion yr heddlu yn ehangach.***

ffordd mae'r heddlu yn ymateb i achosion o stelcio ac aflonyddu.

Gwnaethom hefyd barhau i gyflawni ymchwiliadau o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys ein hymchwiliad i weithrediadau'r heddlu yn dilyn trychineb Hillsborough ac Ymgyrch Linden, edrych ar weithrediadau'r heddlu yn dilyn honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham.

Mae ein gwaith wedi arwain at 105 o argymhellion dysgu, yn cynnwys argymhellion cenedlaethol ar stopio a chwilio, ymlidiau tactegol a gwarantau chwilio.

Yn ogystal, gwyddom nad yw rhai efallai yn deall bod ganddynt yr hawl i gwyno os ydynt yn teimlo eu bod wedi'u trin mewn modd anfoddhaol.

Gall lefelau isel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfrannu nid yn unig at lai o hyder yn y system, ond gall hefyd effeithio ar blismona'r gymuned ac ymddiriediaeth y cyhoedd.


Mae cynyddu lefelau ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd, yn arbennig ymhlith y grwpiau hynny sydd â'r hyder isaf yn y system, yn ffocws allweddol i'n gwaith.

Yn bwysicach fyth, roedd cynnydd o 16% yn y nifer o bobl o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r IOPC. Cydnabyddwn fod gennym waith i'w wneud i wella ymwybyddiaeth yn rhagor ond hefyd i barhau i wella hyder, a fydd yn cael ei lywio gan ymchwil ymgynghori a gynhaliom gyda chymunedau BAME yn ystod y flwyddyn.

Er ein bod yn chwarae rôl ganolog yn sicrhau bod yr heddlu yn atebol, rydym yn rhan o system ehangach o lawer lle mae Crwneriaid, rheithgorau a phaneli disgyblu yn penderfynu yn y pen draw ar ganlyniadau gweithdrefnau. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y system hon i wella prydlondeb ac ansawdd ymchwiliadau.

Wrth i ni fynd i'n trydedd flwyddyn o weithredu, rydym yn ymwybodol iawn y bydd disgwyliadau i'r IOPC gael effaith barhaus a chynaliadwy yn parhau i dyfu gan fod ffocws byd-eang ar atebolrwydd yr heddlu. Mae ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 a thu hwnt yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac edrychaf ymlaen at rannu rhagor o ganlyniadau o'n gwaith â chi yn y flwyddyn i ddod.

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r IOPC. Hoffwn ddiolch i'n cyfarwyddwyr anweithredol am eu cefnogaeth a'u her adeiladol, a'm tîm rheoli a staff am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u gwaith caled.



**Michael Lockwood**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**

# Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

**Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2018. Rydym yn goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr[1].**

Yn benodol, rydym yn:

- ymchwilio i'r digwyddiadau a chwynion mwyaf difrifol yn ymwneud â'r heddlu
- rydym yn ystyried ceisiadau ar gyfer adolygiad neu apêl gan y bobl sy'n anfodlon gyda chanlyniad eu cwyn neu'r modd y deliwyd â'r gŵyn gan yr heddlu
- gosod a monitro'r safonau y dylai'r heddlu eu dilyn wrth drin cwynion
- cyhoeddi ymchwil ac ystadegau ar feysydd penodol o blismona a system gwynion yr heddlu
- defnyddio gwersi o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona

Er ein bod yn chwarae rôl ganolog yn sicrhau bod yr heddlu yn atebol, rydym yn rhan o system ehangach o lawer. Nid oes gennym gyfrifoldeb am benderfynu ar ganlyniadau gweithdrefnau neu gwestau troseddol neu gamymddygiad, ond defnyddir y canfyddiadau o'n gwaith i lywio'r penderfyniadau pwysig hynny.

Rydym yn gwneud ein holl benderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu, llywodraeth a grwpiau buddiant. Nid yw ein Cyfarwyddwr Cyffredinol na'n tîm gweithredol, na'n Cyfarwyddwr Cymru na'r Cyfarwyddwyr Rhanbarthol erioed wedi gweithio i'r heddlu mewn unrhyw fodd.

Ein cenhadaeth yw gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu. Mae ein gwaith yn chwarae rôl allweddol yn hyrwyddo tryloywder a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o blismona. Rydym hefyd yn sicrhau gwelliannau mewn plismona a sicrhau na fydd rhywbeth sydd wedi mynd o'i le yn digwydd eto.

Mae ein blaenoriaethau yn nodi'r meysydd yr ydym ni'n canolbwyntio arnynt ac yn dangos sut ydym yn bwriadu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl a diogelwch y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, boed hynny gan gŵyn neu ddigwyddiad unigol, neu trwy edrych ar broblemau mwy systematig.

1. Yn ogystal â'r heddlu, mae ein cylch gwaith yn cynnwys sawl sefydliad sydd â phwerau tebyg i'r heddlu, ond nad ydynt yn heddluoedd. Mae hyn yn cynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, a'r Awdurdod Gangfeistri a Cham-drin Llafur. Yn ogystal â hyn, rydym yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr yr heddlu a throseddau a'u dirprwyon. Mae'r wybodaeth ystadegol y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn yn cynnwys achosion yn ymwneud â gwasanaeth yr heddlu a sefydliadau eraill dan ein cylch gorchwyl. Fodd bynnag, cyfeiriwn at yr heddlu trwy gydol yr adroddiad hwn gan fod y rhan fwyaf o'n gwaith a'n heffaith yn ymwneud â gwasanaeth yr heddlu.

# Ein gwaith ac effaith ar amrantiad

## 1 Atebolrwydd yr heddlu

**718** o ymchwiliadau annibynnol **wedi'u cwblhau**

**210** yn fwy nag a gychwynnwyd gennym

**83%** o ymchwiliadau annibynnol wedi'u cwblhau cyn pen **12 mis**[2]

Erbyn diwedd y flwyddyn y gwnaethom gau **97%** o achosion wedi'u trosglwyddo gan yr IPCC

**551** *o apeliadau wedi'u cynnal ynglŷn â chwyn person heb ei chofnodi*[3]

**425** *o apeliadau wedi'u cynnal ynglŷn â sut aeth yr heddlu ati i ymchwilio'n lleol i gŵyn unigolyn*

***Arweiniodd hyn at ganlyniadau gwahanol i achwynwyr***

## 2 Defnyddio dysg

**wedi cwblhau 105 o argymhellion dysgu** a helpodd i hybu newidiadau sylweddol

MEGIS …

- **hyfforddiant gwell i swyddogion ar bwerau a gwarantau chwilio**
- **wedi diweddaru canllawiau plismona cenedlaethol ynghylch ymlidiau'r heddlu**
- **hyfforddiant a chymorth gwell i swyddogion ar stelcio ac aflonyddu**

ar ôl darllen ein **LEARNING THE LESSONS** cylchgrawn ar **bobl ifanc**

**88%** yn dweud y byddent yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn rhyngweithio â phobl ifanc

## 3 Gweithio gydag eraill

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID®

CSE

wedi cyflawni **Achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth® Cwsmer**

**ein Panel Ieuenctid:** Rhoi llais i bobl ifanc yng nghynadledd genedlaethol arweinwyr plismona

**WEDI CREU canllaw person ifanc i system gwynion yr heddlu**

## 4 Bod yn sefydliad effeithiol

***Wedi cefnogi llesiant ac iechyd meddwl staff trwy STREAM, rhaglen cefnogi cyfoedion unigryw***

**Cynyddodd bodlonrwydd staff ar draws bron pob maes**

o'r **30** categori a fesurwyd yn ein harolwg staff blynyddol, **21** wedi dangos **gwelliannau sylweddol**

2. Nid yw hyn yn cynnwys achosion sy'n cael eu rheoli gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawrion (DMI). Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn delio â rhai o'r achosion mwyaf cymhleth a mwyaf o ran maint, megis ymchwilio i weithredoedd yr heddlu yn syth ar ôl trychineb Hillsborough ac ymateb yr heddlu i hen honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham.
3. Cyn 1 Chwefror 2020, y cam cyntaf i ymdrin â chwynion oedd i'r heddlu neu sefydliad perthnasol benderfynu a ddylid cofnodi'r gŵyn ai peidio. Wedi i gŵyn gael ei chofnodi, roedd rhaid ymdrin â hi yn unol â rheolau a chanllawiau penodol. Os nad oedd y llu neu'r sefydliad yn cofnodi'r gŵyn, roedd gan yr achwynydd hawl i apelio i'r IOPC yn erbyn y penderfyniad hwn.

# Crynodeb gweithredol

**Ein cenhadaeth yw gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu. Mae ein gwaith yn chwarae rôl allweddol yn cyflwyno gwelliannau mewn plismona, hyrwyddo tryloywder a helpu i sicrhau lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le, nad yw hynny'n digwydd eto.**

Ein nod yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blismona a'r cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwaith wedi newid yn gadarnhaol arferion yr heddlu yn lleol a chenedlaethol. Mae ein gwaith wedi helpu heddluoedd i ddeall materion allweddol, gwella'r ffordd yr ânt ati i ymdrin â chwynion a chyflwyno arferion da. Mae ein hymchwiliadau wedi helpu i wneud swyddogion yn atebol am gamymddygiad yn y materion mwyaf difrifol, a hefyd wedi tynnu sylw at gyfleoedd i helpu i atal risgiau yn y dyfodol.

Mae sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a gweithio i sicrhau bod pob rhan o system gwynion yr heddlu yn darparu deilliannau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth yn brydlon yn rhan allweddol o'n gwaith.

Roedd gweithio gydag ystod o randdeiliaid a chymunedau fel eu bod yn deall sut mae cael mynediad at system gwynion yr heddlu a chael hyder ynddi yn flaenoriaeth allweddol yn ystod y flwyddyn.

Mae ymwybyddiaeth o'r IOPC dros y 12 mis diwethaf wedi cynyddu o 40% i 51% o ymatebwyr arolwg yn dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC. Er bod mwy o waith i'w wneud, cynyddodd ymwybyddiaeth o'r IOPC a lefelau hyder yn yr heddlu yn delio â chwynion yn deg ymysg pobl ifanc a phobl o gefndiroedd BAME, dau o'n grwpiau targed allweddol sydd â lefelau hyder is yn yr heddlu.

Cyfrannodd ein panel ieuenctid yn sylweddol i'n gwaith, yn rhannu barn pobl ifanc yng Nghynhadledd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), gan gyhoeddi adnoddau ar gyfer yr heddlu a datblygu canllaw i bobl ifanc ar system gwynion yr heddlu.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio'n glir ar ein defnyddwyr gwasanaeth ac ym mis Mawrth 2020, bu i ni sicrhau achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid®, marc ansawdd annibynnol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wrando ac ymateb i anghenion y rheiny yr effeithir arnynt gan ein gwaith (ein defnyddwyr gwasanaeth). Byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud rhagor o welliannau, fel bod ein teithiau defnyddwyr gwasanaeth y gorau y gallant fod.

Mae adborth gan ein rhanddeiliaid yn dangos cysylltiadau gwell â'r IOPC mewn cymhariaeth ag unrhyw adeg yn y gorffennol, y gellir eu priodoli i dri maes:

- newid a groesawir yn fawr mewn ffocws tuag at ddysgu
- gwaith ymgysylltu ac estyn allan gwell gyda rhanddeiliaid
- arweinyddiaeth sy'n gwrando ar bryderon rhanddeiliaid ac yn dangos bwriad i fynd i'r afael â nhw

Fodd bynnag, dim ond un elfen o system gwynion a chyfiawnder troseddol yr heddlu ydym. Effeithir hefyd ar ein gwaith gan wrandawiadau, erlyniadau a chwestau'r crwner, nad ydym yn eu harwain na'u rheoli. Mae gweithio gyda'n rhanddeiliaid i wella ansawdd a phrydlondeb ymhellach ar draws y system gyfan yn hanfodol i hybu rhagor o welliannau.

***Gwelodd ein ffocws ar brydlondeb 35% o ymchwiliadau annibynnol wedi eu cwblhau cyn pen chwe mis a 83% cyn pen 12 mis.***

Ffocws mawr i ni ar gyfer eleni oedd gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ac eraill i gefnogi newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n tanategu systemau cwynion a disgyblu'r heddlu.

Ar 1 Chwefror 2020, cyflwynwyd newidiadau deddfwriaethol i system gwynion yr heddlu a'u nod oedd symleiddio'r system gwynion, gwneud hi'n haws ei llywio a sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn fwy cyflym ac effeithiol.

Mae'r diwygiadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd resymol a chymesurol ac yn anelu at wella prydlondeb ymhellach. Maent yn darparu mwy o hyblygrwydd wrth ymdrin â chwynion a ffocws ar wasanaeth. Yn bwysicach, maent hefyd yn cynnwys ffocws cryfach ar ddysgu.

Mae'r diwygiadau hefyd yn rhoi pwerau newydd i ni, yn cynnwys y pŵer i ymchwilio heb atgyfeiriad gan yr heddlu penodol a chyflwyno ein hachosion ein hunain yng ngwrandawiadau camymddygiad yr heddlu.

Mae ein rôl wrth ymdrin ag apeliadau lle nad yw rhywun yn hapus gyda'r modd y mae'r heddlu wedi ymdrin â'u cwyn yn golygu bod cwynion gan gannoedd o bobl na fyddai fel arall wedi cael eu cofnodi na chael ymdriniaeth dan system gwynion yr heddlu (ac felly hefyd yr hawliau cyfreithiol cysylltiedig) wedi cael hynny yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn bu i ni ddelio â 2,838 o apeliadau dilys a chadarnhau nifer sylweddol o'r rhain, a arweiniodd at ganlyniadau gwahanol i achwynwyr. Mae'r gwaith hwn yn helpu i ddarparu sicrwydd.

Dechreuasom 508 o ymchwiliadau annnibynnol a chwblhau 718 ohonynt. Gwelodd ein ffocws ar brydlondeb 35% o ymchwiliadau annibynnol wedi eu cwblhau cyn pen chwe mis a 83% cyn pen 12 mis.

Bu i ni hefyd ganolbwyntio ein ar themâu allweddol yn cynnwys trais domestig, marwolaethau yn y ddalfa, iechyd meddwl, plismona ffyrdd, defnyddio grym, Taser ac opsiynau llai angheuol, a manteisio ar safle at ddibenion rhywiol.

Yn ystod y cyfnod hwn bu i ni leihau'r nifer o achosion hŷn, a fu ar y gweill ers amser. Dim ond 18 o'r 538 o achosion a etifeddasom gan Gomisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu (IPCC) a oedd yn parhau i fod yn agored ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae gennym hefyd ffocws cryf ar rannu dysg sy'n gwella plismona, amddiffyn y cyhoedd ac atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto. Mewn rhai achosion, mae hyn yn y pen draw yn achub bywydau.

Mae ein hymchwil yn dangos yn gyson bod aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud cwyn ynglŷn â'r heddlu eisiau i'r rheiny sydd ynghlwm â'r gŵyn, a gwasanaeth ehangach yr heddlu, i ddysgu oddi wrthi. Mae diwygiadau deddfwriaethol i'r system gwynion hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu a gwella'n barhaus.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni wneud 105 o argymhellion dysgu sefydliadol ffurfiol yn ymwneud â pholisi neu ganllawiau, hyfforddiant ar gyfer swyddogion heddlu neu ddeddfwriaeth a materion eraill. Bu i'n hargymhellion dysgu eleni newid arferion plismona cenedlaethol mewn perthynas ag ymlidiau tactegol, stelcio a gwarantau chwilio, yn ogystal ag arferion plismona lleol mewn perthynas â materion yn amrywio o'r ymateb i drais domestig i ddefnyddio grym.

Bydd ein gwaith o ddewis achosion thematig yn hoelio ein sylw ar adnabod cyfleoedd ar gyfer dysgu, unrhyw bryderon sy'n benodol i heddluoedd, neu a oes potensial i adnabod arferion da. Bellach mae gennym bedwar maes thematig y gallwn ganolbwyntio ein hymchwiliadau a'n dysg arnynt; iechyd meddwl, digwyddiadau traffig y ffyrdd, cam-drin domestig, a chamddefnyddio swydd at ddibenion rhywiol. Bydd dau faes thematig arall, gwahaniaethu a digwyddiadau a fu bron a digwydd yn y ddalfa, yn cael eu lansio yn 2020/21.

Bu i ni barhau i gyhoeddi gwybodaeth am ein gwaith a chodi ymwybyddiaeth o'n canfyddiadau. Mae ein hadroddiadau blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, ymchwil i'r themâu allweddol yr amlygir gan ein gwaith, adroddiadau a chrynodebau ymchwiliadau, ystadegau cwynion chwarterol a blynyddol yr heddlu ac argymhellion dysgu cyfundrefnol i gyd yn cyfrannu at ddysg, hyder y cyhoedd ac atebolrwydd yr heddlu.

Bu i'n gwaith lywio ymgynghoriadau ynghylch trwyddedu arfau tanio a newidiadau i ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth, y cod ymddygiad ynghylch heddlu arfog a defnydd yr heddlu o arfau llai angheuol a'r Strategaeth Genedlaethol ar Blismona ac Iechyd Meddwl. Cyfrannodd ein data ac achosion at adroddiad HMICFRS pwysig ac argymhellion ynghylch manteisio ar safle at ddibenion rhywiol.

Gallwch ddarllen rhagor am ein gwaith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ein cynllun busnes 2020/21.

# Ein cenhadaeth

**Gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu**

| Ein blaenoriaethau | Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud | Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni |
|---|---|---|
| Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu | Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r lleiaf o hyder mewn plismona, fel eu bod yn deall eu hawl i gwyno ac yn disgwyl triniaeth deg a chyfiawn wrth ymateb i gwynion a digwyddiadau difrifol. | Y rhai sy'n brin o hyder mewn plismona yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi'r system gwynion. |
| Gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith | Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i rannu ein dysg i wella plismona a diogelu'r cyhoedd rhag niwed. | Mae ein hargymhellion yn arwain at welliannau mewn plismona ac yn atal niwed i'r cyhoedd. |
| Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu | Byddwn yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion – ein gwaith ein hunain a'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan eraill – fel ei bod yn cyflawni deilliannau sy'n ddiduedd, yn deg ac ar sail tystiolaeth yn brydlon yn gyson. | Bod system gwynion yr heddlu yn darparu deilliannau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth yn brydlon. |
| Bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol | Byddwn yn denu a chadw gweithlu amrywiol a hynod fedrus ac yn rhoi amgylchedd gwaith da iddynt gan wella yn barhaus i gynnig gwerth am arian. | Ein gweithlu hynod fedrus, amrywiol yn cyflawni gwasanaeth rhagorol, sy'n cynnig gwerth am arian. |

## Ein gwerthoedd

- Chwilio am y gwir
- Grymuso pobl
- Bod yn ddygn
- Bod yn gynhwysol
- Gwneud gwahaniaeth




# Gwella hyder y cyhoedd yn atebolrwydd yr heddlu

# Sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd. Gweithio i sicrhau bod pob rhan o system gwynion yr heddlu yn cyflawni deilliannau sy'n ddiduedd, teg ac ar sail tystiolaeth mewn ffordd brydlon

Rydym yn gyfrifol am oruchwylio system gwynion yr heddlu. Golyga hyn ein bod yn chwarae rôl allweddol yn gwneud yn siŵr bod:

- cwynion yn cael eu trin yn rhesymol ac yn gymuesrol
- swyddogion heddlu a staff yn cael eu gwneud yn atebol
- gwasanaeth yr heddlu yn dysgu ac arferion plismona yn gwella

Mae system gwynion effeithiol, sy'n mynnu hyder y cyhoedd, yn rhan hanfodol o'r model o blismona trwy gydsyniad. Rhoddir pwerau sylweddol i'r heddlu, ac mae'r system gwynion yn darparu cydbwysedd pwysig trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd. Nid yn unig y mae ein gwaith yn helpu i sicrhau atebolrwydd, ond mae hefyd yn rhoi dealltwriaeth unigryw i sut mae prosesau a gweithdrefnau'r heddlu yn gweithio. Rydym yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gyflwyno newid a gwelliannau i helpu i wella hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

# Ein gwaith ar apeliadau

Mae mwyafrif y cwynion yn cael eu trin yn lleol gan adrannau safonau proffesiynol heddluoedd (ASP).

Cyn i'r diwygiadau i system gwynion yr heddlu ddod i rym ar 1 Chwefror 2020, pan oedd rhywun yn anfodlon â chanlyniad eu cwyn, neu'r modd yr ymdriniwyd â hi, roedd ganddynt yr hawl i apelio naill ai i ni neu i brif swyddog yr heddlu dan sylw[4]. Roedd gan achwynwyr hawliau apelio gwahanol yn dibynnu ar sut yr ymdriniwyd â'u cwyn.

Ar ôl y dyddiad hwn, disodlodd newidiadau i'r ddeddfwriaeth y gwahanol hawliau hyn gydag un hawl i wneud cais am adolygiad o gŵyn a gofnodwyd. Nod y newid hwn yw gwneud y system yn fwy syml ac yn fwy hygyrch i achwynwyr, wrth gynnal eu hawliau i adolygu penderfyniadau am eu cwynion.

Pan oedd achwynydd yn apelio i ni, roeddem yn asesu'n annibynnol sut yr ymdriniwyd â'u cwyn. Os bu i ni ganfod nad ymdriniwyd â'r gŵyn yn gywir, neu bu i ni anghytuno gyda'r canfyddiadau, rhoesom gyfarwyddyd i gymryd y camau gweithredu priodol hynny[5].

O 1 Chwefror 2020, pan mae achwynydd yn gwneud cais am adolygiad gennym, rydym yn asesu'n annibynnol p'un a oedd canlyniad eu cwyn yn rhesymol a chymesurol. Os canfyddwn nad oedd y canlyniad yn rhesymol a chymesurol, gallwn wneud cyfarwyddiadau ac argymhellion priodol.

**O 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020, bu i ni ymdrin â 2,838 o apeliadau dilys[6]:**

- bu i ni ymdrin â 1,370 o apeliadau ynglŷn â chwyn person heb ei chofnodi. Bu i ni gadarnhau 551 o'r rhain
- bu i ni ymdrin â 112 o apeliadau ynglŷn â sut oedd yr heddlu wedi ceisio datrys cwyn yn lleol[7]. Bu i ni gadarnhau 42 o'r rhain
- bu i ni ymdrin â 1,257 o apeliadau ynglŷn â sut ymchwiliwyd i gŵyn gan yr heddlu yn lleol. Bu i ni gadarnhau 425 o'r rhain

**Golyga hyn:**

- mewn 551 o achosion, cafodd cwynion pobl eu cofnodi ac ymdriniaeth gan system gwynion yr heddlu, lle na fyddent wedi cael hynny heb apêl. Roedd hyn yn rhoi'r hawliau cyfreithiol cysylltiedig iddynt

4. Roedd gwahanol seiliau dros apelio, a chânt eu hegluro ar ein gwefan. Mae pa sefydliad oedd yn gyfrifol am ymdrin ag apêl wedi'i nodi mewn deddfwriaeth. Ymdriniwyd â phob apêl ynglŷn â chwyn heb ei chofnodi gan yr IOPC.
5. Er enghraifft, gallwn benderfynu bod gan swyddogion neu staff achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol neu amlygu meysydd dysgu ar gyfer unigolion fel y gall yr heddlu gymryd camau gweithredu priodol. Gallwn hefyd rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu i ailymchwilio i gŵyn neu benderfynu y dylai'r IOPC ymchwilio i gŵyn yn annibynnol os credwn na fu i ymchwiliad cychwynnol yr heddlu ymchwilio i un neu fwy o honiadau'n ddigonol.
6. Fel y corff apelio perthnasol, roedd rhaid i ni asesu p'un a oedd yr apêl yn ddilys cyn y gallwn ei hystyried. Roedd sawl rheswm pam y gallai apêl fod wedi'i barnu'n anilys. Roedd y rhain yn cynnwys; os nad oedd y gŵyn yn cynnwys gwybodaeth benodol a oedd yn ofynnol gan y gyfraith; os nad oedd hawl i apelio; ac os cafodd yr apêl ei derbyn mwy na 28 diwrnod ar ôl dyddiad apelio'r penderfyniad ac nid oedd amgylchiadau arbennig i gyfiawnhau'r oedi.
7. Roedd datrysiad lleol yn un ffordd i heddlu ddatrys cwyn. Roedd yn addas yn unig i gwynion nad oeddent angen ymglymiad yr IOPC. Roedd datrysiad lleol yn cynnwys yr heddlu yn rhoi eglurhad neu ymddiheuriad, neu fodloni'r achwynydd fel arall ei fod yn cymryd camau gweithredu priodol.

- mewn 42 o achosion, cafodd pobl ganlyniad gwahanol i'r un a gawsant pan ddefnyddiwyd datrysiad lleol i ymdrin â'u cwyn
- mewn 425 o achosion, cafodd pobl ailymchwiliad i'w cwyn a/neu ganlyniad gwahanol i'r un a gawsant pan gynhaliwyd ymchwiliad cychwynnol i'w cwyn. Lle bu i ni gadarnhau'r apeliadau hyn, roedd ein casgliadau yn cynnwys:
  - nid oedd canfyddiadau ymchwiliad yr heddlu yn briodol
  - dylai fod y sawl a gyflwynodd y gŵyn wedi cael rhagor o wybodaeth
  - roedd gan swyddogion achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddwyn difrifol
  - dylai fod yr heddlu wedi gofyn i Wasanaeth Erlyn y Goron i benderfynu a ddylid erlyn swyddog ai peidio
  - nid oedd y camau gweithredu (neu ddiffyg camau gweithredu) yr oedd yr heddlu wedi bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r gŵyn yn briodol



## Astudiaeth achos

# Cipolwg ar apeliadau

Bu i ni gadarnhau apêl yn erbyn canlyniad ymchwiliad a gynhaliwyd yn lleol gan heddlu.

Cyflwynodd unigolyn gŵyn i'r heddlu am y modd yr ymdriniodd swyddog â'u honiad o ymosodiad rhywiol, a arweiniodd at y tramgwyddwr honedig yn derbyn rhybudd[8] am ymosodiad cyffredin.

Ymchwiliodd yr heddlu i'r gŵyn ac ystyriodd i ddechrau fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol. Cyn y gellid cynnal gweithdrefnau camymddygiad, adolygodd yr heddlu yr achos ac ailbenderfynodd y dylid ymdrin â'r achos fel mater perfformio.

Apeliodd yr unigolyn yn erbyn y canlyniad a bu i ni adolygu ymdriniaeth yr heddlu o'i gŵyn. Daethom i'r casgliad nad oedd rhesymau'r heddlu am newid ei benderfyniad ynghylch canlyniad yr ymchwiliadau yn briodol, o ystyried y dystiolaeth yn yr achos. O ganlyniad, bu i ni gadarnhau'r apêl a phenderfynasom y dylai'r swyddog fynychu gweithdrefnau camymddygiad.

*Apeliodd yr unigolyn yn erbyn y canlyniad a bu i ni adolygu ymdriniaeth yr heddlu o'u cwyn. Daethom i'r casgliad nad oedd rhesymau'r heddlu am newid ei benderfyniad ynghylch canlyniad yr ymchwiliad yn briodol, o ystyried y dystiolaeth yn yr achos.*

Ar ôl derbyn ein penderfyniad apêl, adolygodd yr heddlu'r achos eto a chynnal rhagor o ymholiadau. Yn ystod y broses hon, bu iddo adnabod dau honiad arall yn erbyn y swyddog yn ymwneud â'i ymdriniaeth o'r honiad o ymosodiad rhywiol. O ganlyniad, ailbenderfynodd yr heddlu fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol.

Canfu gwrandawiad camymddygiad diweddarach fod y swyddog wedi methu â chofnodi honiad yr unigolyn fel ymosodiad rhywiol, heb gynnal ymchwiliad cymesurol i'r honiad, wedi methu ag ystyried barn yr unigolyn cyn cyhoeddi'r rhybudd a heb egluro'n llawn y rhybudd iddo. Diswyddwyd y swyddog o'r heddlu.

8. Gall yr heddlu roi rhybuddion i unrhyw un 10 oed neu hŷn am fân droseddau. I dderbyn rhybudd rhaid i berson gyfaddef i drosedd a chytuno i gael ei rybuddio. Nid yw rhybudd yn euogfarn droseddol, ond gellid ei ddefnyddio mewn gweithdrefnau cyfreithiol yn y dyfodol a gall ddangos ar wiriad o gofnod troseddol.

# Ein hymchwiliadau

**Yn gyfreithiol, rhaid i'r heddlu atgyfeirio cwynion a digwyddiadau penodol atom ni. Rydym yn penderfynu a yw ymchwiliad yn hanfodol ac, os felly, pa lefel o gyfranogiad y dylem ni ei chael yn yr ymchwiliad hwnnw. Gallwn gynnal ein hymchwiliad annibynnol ein hunain, rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu i gynnal ymchwiliad dan ein rheolaeth, neu benderfynu y gallai'r heddlu ddelio â'r mater yn lleol.**

Yn ystod ymchwiliad, mae ein hymchwilwyr yn casglu tystiolaeth i sefydlu holl amgylchiadau'r hyn sydd wedi digwydd. Weithiau byddwn yn canfod materion neu fethiannau sefydliadol. Mewn rhai achosion, hyd yn oed y rheiny sydd wedi cael y canlyniadau mwyaf difrifol neu drasig, rydym yn canfod bod yr heddlu wedi gweithredu'n briodol. Weithiau rydym yn canfod y gall gweithredoedd unigolyn fod wedi arwain at berfformiad gwael, camymddygiad neu drosedd.

Lle bo'n hymchwiliad yn ymwneud â marwolaeth, rhoddir adroddiad ein hymchwiliad i'r crwner fel y gellir defnyddio ein canfyddiadau yn y cwêst[9].

Lle ein bod yn canfod camweddau sylweddol gan unigolyn, mae gennym hefyd y pŵer i:

- atgyfeirio mater i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) iddo benderfynu a ddylid erlyn rhywun
- rhoi cyfarwyddyd bod gweithredoedd rhywun yn cael eu hystyried mewn gweithdrefnau disgyblu

Er ein bod yn chwarae rôl ganolog yn sicrhau bod yr heddlu yn atebol, rydym yn rhan o system ehangach o lawer. Weithiau bydd cwestau, gweithdrefnau troseddol a/neu ddisgyblu cyn y cyrrhaeddir pob penderfyniad terfynol. Paneli disgyblu'r heddlu, rheithgorau a chrwneriaid sy'n penderfynu yn y pen draw ar ganlyniadau'r gweithdrefnau hyn, ond mae ein canfyddiadau yn eu helpu nhw i wneud y penderfyniadau pwysig hynny ac yn chwarae rôl bwysig yn eu gwneud yn atebol.

9. Ymchwiliad ffurfiol yw cwêst a gynhelir gan grwner i bennu sut bu rhywun farw.

# Astudiaethau achos

## Cipolwg ar ychydig o'n hymchwiliadau

**Mae'r adran hon yn darparu cipolwg cryno ar rai o'n hymchwiliadau. Dengys sut mae ein gwaith yn helpu i wneud yn siŵr bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd, ac mae'n disgrifio canlyniadau rhai o'n hymchwiliadau.**

### Achos un

**Creu, meddiannu a dosbarth delweddau anweddus sy'n peri pryder**

Yn dilyn ein hymchwiliad, cafwyd cyn swyddog yn euog o droseddau yn ymwneud â delweddau anweddus o blant a chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymchwiliad, a oedd yn cynnwys 57 o ddioddefwyr rhwng 13 a 44 oed, dan ein goruchwyliaeth gan heddlu. Carcharwyd y cyn swyddog am bedair blynedd a phedwar mis, ei roi ar Gofrestru Troseddwyr Rhyw a bydd yn destun gorchymyn atal niwed rhywiol am oes. Cyn dedfrydu, diswyddwyd y swyddog o'r heddlu am gamymddwyn difrifol[10].

### Achos dau

**Gwyrdroi cwrs cyfiawnder**

Yn dilyn ein hymchwiliad, carcharwyd swyddog am 15 mis ar ôl pledio'n euog i wyrdroi cwrs cyfiawnder. Rhoddwyd y dasg o fynychu golygfa marwolaeth anesboniadwy i'r swyddog. Cymerodd yr heddlu nifer o eitemau, yn cynnwys waled gyda £65 yn perthyn i'r ymadawedig, a'u dodi yn y storfa eiddo mewn gorsaf heddlu. Rai dyddiau wedyn, cafodd y waled ei dychwelyd i bartner yr ymadawedig, a gyflwynodd gŵyn ar ôl canfod bod arian ar goll.

Bu i ni ganfod tystiolaeth bod y swyddog wedi dwyn £65 o waled yr ymadawedig, a'i fod yna wedi ceisio celu'r lladrad ac ymyrryd â'r dystiolaeth ar ôl i'r drosedd gael ei hadrodd. Daethpwyd i'r casgliad bod y swyddog, a ymddiswyddodd o'r heddlu cyn gweithdrefnau disgyblu, wedi cyflawni camymddygiad difrifol ac fe'i rhoddwyd ar Restr Wahardd yr Heddlu[11].

### Achos tri

**Defnyddio grym**

Canfu ein hymchwiliad i ymateb yr heddlu i rywun gyda chyllell a oedd yn bygwth trywanu eu hunain ac eraill fod swyddog wedi mynd uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswyddau i sicrhau diogelwch y person ac eraill.

Bu i swyddogion fynd i gyfeiriad i gynnal gwiriad lles a chanfu rywun dan ddylanwad cyffuriau ac yn gafael mewn cyllell. Ni wnaethant adael i'r swyddogion heddlu fynd i mewn i'r fflat. Gellid clywed person arall y tu mewn yn erfyn ar y swyddogion i gael eu gadael i mewn. Sicrhaodd swyddog fynediad trwy rym i'r fflat, ac ar ôl cael ei fygwth â chyllell, defnyddiodd declyn Taser i lonyddu'r person, a oedd wedi trywanu ei hun yn y frest.

Bu i ni ganfod bod defnyddio Taser wedi'i gyfiawnhau i atal y person rhag niweidio ei hun neu eraill. Bu i ni argymell y dylai'r swyddog, a ddangosodd ddewrder eithriadol, gael ei ganmol am ei weithredoedd. Cytunodd yr heddlu gyda'n casgliad a derbyniodd y swyddog ganmoliaeth.

### Achos pedwar

**Manteisio ar safle**

Diswyddwyd swyddog am fanteisio ar ei safle i gymryd rhan mewn perthnasoedd rhywiol ar ddyletswydd ac oddi ar ddyletswydd gyda dau unigolyn y bu iddo gwrdd â nhw trwy ei waith. Dechreuodd ein hymchwiliad ar ôl i un o'r unigolion wneud cwyn. Bu i ni ganfod bod y swyddog wedi cysylltu â'r ddau unigolyn i gwrdd a chymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol - roedd un yn oroeswr trais domestig a'r llall yn 16 oed ar y pryd. Canfu gwrandawiad fod gweithredoedd y swyddog yn gamymddwyn difrifol.

10. Diffinnir camymddwyn difrifol fel torri'r safonau ymddygiad proffesiynol gan swyddog heddlu neu aelod o staff, sydd mor ddifrifol fel y gallai gyfiawnhau eu diswyddo.
11. Cynhelir Rhestr Wahardd yr Heddlu gan y Coleg Plismona. Mae'n rhestru'r holl heddluoedd, cwnstabliaid arbennig a staff sydd wedi cael eu diswyddo o'r heddlu, neu a fyddai wedi cael pe na baent wedi ymddeol neu ddiswyddo. Mae'n sicrhau nad yw'r unigolion hyn yn gallu dod o hyd i swyddi yn yr heddlu eto.

## Achos pump

### Troseddau twyllodrus

Carcharwyd swyddog am 12 mis ar ôl prynu mynediad i sianeli pornograffig yn defnyddio cyfrif perchennog eiddo tra ar ddyletswydd ar ôl marwolaeth plentyn yn yr eiddo. Roedd y swyddog yn gwarchod y tŷ wrth ddisgwyl am yr ymgymerwyr i fynd â chorff y plentyn oddi yno. Nid oedd teulu'r plentyn yno ar y pryd.

Lawrlwythodd y swyddog bedair ffilm bornograffig tra yn y tŷ. Bu iddo ffugio ei gofnodion presenoldeb, gan honni ei fod wedi gadael yr eiddo ddwy awr yn gynharach y diwrnod hwnnw. I ddechrau, roedd y teulu'n credu bod eu plentyn wedi lawrlwytho'r ffilmiau. Pan wnaethant sylweddoli mai nad eu plentyn nhw oedd wedi gwneud hyn, bu iddynt gwyno am y swyddog. Diswyddwyd y swyddog am gamymddwyn difrifol.

## Achos chwech

### Damwain traffig ar y ffordd

Bu i'n hymchwiliad i ddamwain traffig ar y ffordd yn cynnwys yr heddlu arwain at swyddog yn derbyn rhybudd ysgrifenedig ar ôl i'w ymddygiad fethu â chyrraedd y safonau derbyniol.

Roedd y swyddog yn gyrru cerbyd heddlu wedi'i farcio pan geisiodd atal cerbyd arall. Ar ôl ei ymlid am ychydig, bu i'r car arall daro wal a daeth y gyrrwr allan. Cafodd y gyrrwr ei daro gan gerbyd yr heddlu, a ddioddefodd anafiadau difrifol.

Cyn gwrandawiad camymddygiad, cyfaddefodd y swyddog i gamymddwyn difrifol am fethu â glynu wrth bolisïau'r heddlu ynghylch asesu'r risg wrth ymlid cerbyd.

## Achos saith

### Methiant i ymchwilio

Diswyddwyd swyddog a oedd yn gweithio fel Swyddog Ysgol Ddiogelach am fethu â chymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i adroddiadau am blentyn dan 13 oed yn cael rhyw â nifer o unigolion. Bu i ni ganfod bod y swyddog wedi methu â chofnodi'r wybodaeth fel trosedd ac ni wnaeth gychwyn ymchwiliad na chyfeirio'r mater er diogelwch. Rhoddodd hyn y plentyn mewn perygl o fwy o niwed. Daeth gwrandawiad camymddygiad i'r casgliad bod y swyddog wedi cyflawni camymddygiad difrifol a chafodd ei ddiswyddo.

## Achos wyth

### Defnyddio grym

Bu i ni ymchwilio i gyswllt yr heddlu â lleidr a oedd wedi dioddef anaf difrifol wrth gael ei ddal gan yr heddlu. Bu i ni ganmol y swyddog am ei weithredoedd yn atal y lleidr rhag disgyn allan o ffenestr llawr cyntaf tŷ, er gwaethaf anaf i'w fraich.

Aeth swyddog a chi'r heddlu i mewn i'r tŷ ar ôl i'r heddlu dderbyn adroddiadau bod y tŷ wedi cael ei dorri i mewn iddo. Mewn ymgais i ddianc oddi wrth yr heddlu, ceisiodd y lleidr ddringo allan o ffenestr llawr cyntaf wrth gael ei ddal gan y swyddog. Cafodd swyddog ei halio ar ddarn o wydr a dioddefodd anaf difrifol i'w fraich. Er gwaethaf hyn, parhaodd y swyddog i ddal y lleidr gydag un llaw nes i'r swyddogion eraill gyrraedd i roi help llaw.

Bu i ni ganfod bod defnydd y swyddog o rym a thactegau yn ymgais y gellid ei chyfiawnhau i atal y lleidr rhag disgyn, ac y dylid ei ganmol am ei weithredoedd. Cytunodd yr heddlu gyda'n casgliad a derbyniodd y swyddog ganmoliaeth am ei ddewrder.

# Gwella prydlondeb ar draws y system

**Gall y cyfnod o amser y mae ymchwiliad ac unrhyw weithrediadau dilynol yn eu cymryd gael effaith sylweddol ar achwynwyr, teuluoedd y bobl sydd wedi marw neu eu hanafu'n ddifrifol, swyddogion heddlu ac aelodau eraill o staff. Gall oedi wrth gwblhau ymchwiliadau hefyd gael effaith negyddol ar hyder ehangach y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu.**

**Bu i ni ganolbwyntio ar leihau'r amser y cymera ein hymchwiliadau trwy:**

- beilota model ymchwilio newydd gyda ffocws ar wneud penderfyniadau cyflym ac ymgysylltiad cynnar gwell gyda heddluoedd, Ffederasiwn yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn bellach yn cael ei werthuso i'w gyflwyno'n genedlaethol
- gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn adnabod arbenigwyr ac yn ymgysylltu â nhw i gaffael y dystiolaeth yn fwy cyflym
- gweithio gyda Ffederasiwn yr Heddlu a chymdeithasau staff eraill i wella dealltwriaeth o'n rôl, gan arwain at fwy o gydweithrediad gydag ymchwiliadau a sicrhau datganiadau a chyfweliadau cynharach

Bu i ni hefyd weithio gydag eraill i adnabod lle gellir gwneud gwelliannau ar draws y system - er enghraifft, gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i ganolbwyntio ar gyngor cynnar a throsglwyddo achosion i gefnogi gyda gwneud penderfyniadau mwy amserol Yn ogystal, bu i ni ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Prif Grwner i sicrhau dealltwriaeth well o'n cyfrifoldebau priodol a ffyrdd mwy effeithiol o weithio

O 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020, dechreuasom 508 o ymchwiliadau annibynnol a chwblhau 718 ohonynt. Yn ystod y cyfnod hwn:

- bu i ni gwblhau 35% o ymchwiliadau annibynnol cyn pen chwe mis - gwellhad o bum pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol
- bu i ni gwblhau 79% o'n hymchwiliadau cyn pen 12 mis. Ac eithrio ein hachosion sy'n cael eu rheoli gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawrion, bu i ni gwblhau 83% o ymchwiliadau annibynnol cyn pen 12 mis

Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiasom ar gau achosion hŷn, hirsefydlog a chlirio ein hen achosion sy'n parhau'n agored:

- gwnaethom leihau nifer yr achosion annibynnol agored o 548 i 327
- gwnaethom leihau oedran cyfartalog ein hachosion o fwy na deg mis ar ddechrau'r flwyddyn i lai na naw mis ar ddiwedd y flwyddyn
- gwnaethom leihau nifer yr ymchwiliadau a drosglwyddwyd drosodd gan yr IPCC o 93 i 18

Erbyn diwedd 2019/20, roedd dau draean o'n llwyth achos agored yn ddiweddarach na chwe mis oed. Mae'r gyfran o achosion sy'n agored am hirach na 12 mis wedi lleihau o 24% i 17%.

Rydym wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol yn ailddylunio'r ffordd yr ydym yn ymgymryd â'n hymchwiliadau i barhau i'w gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan arferion gorau ac allbwn gan randdeiliaid.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am ein perfformiad yn ein hadroddiad blynyddol.

# Helpu i wneud diwygiadau i system gwynion yr heddlu

**Ar 1 Chwefror 2020, cyflwynwyd newidiadau deddfwriaethol i system gwynion yr heddlu. Bu i ni ddadlau ers amser maith y dylid diwygio'r system gwynion oherwydd pryderon ei bod yn gymhleth, anodd ei deall ac anodd ei defnyddio. Nod y newidiadau yw symleiddio'r system gwynion, gwneud hi'n haws ei llywio a sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn fwy cyflym ac effeithiol.**

Mae'r diwygiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd resymol a chymesurol ac yn anelu at wella prydlondeb ymhellach. Maent yn darparu mwy o hyblygrwydd wrth ymdrin â chwynion a ffocws ar wasanaeth. Yn bwysicach, maent hefyd yn cynnwys ffocws cryfach ar ddysgu.

Mae'r diwygiadau hefyd yn rhoi pwerau newydd i ni. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i ymchwilio heb atgyfeiriad gan yr heddlu penodol a chyflwyno ein hachosion ein hunain yng ngwrandawiadau camymddygiad yr heddlu.

Gan ddefnyddio ein profiad, gwersi o'n hachosion, ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, bu i ni weithio â'r Swyddfa Gartref ac eraill i helpu i siapio'r diwygiadau hyn a gwella hyder yn system gwynion yr heddlu.

I gefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, bu i ni gyhoeddi Canllaw Statudol i helpu heddluoedd a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol newydd a chyflawni safonau uchel wrth ymdrin â chwynion. Defnyddiodd y Coleg Plismona (y Coleg) ein canllawiau i helpu swyddogion a staff i ddeall y diwygiadau trwy ddatblygu pecyn hyfforddiant. Bu i ni hefyd gefnogi gwaith y Coleg trwy adolygu'n feirniadol y pecyn hyfforddiant a ddatblygwyd ganddynt.

Trwy gydol y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd bu i ni gysylltu â'r Swyddfa Gartref, heddluoedd, cyrff plismona lleol[12] a'r NPCC i gefnogi'r newidiadau ymarferol a diwylliannol a oedd yn ofynnol i weithredu'r system newydd yn effeithiol. Er enghraifft, bu i ni helpu'r grŵp

***"Fy nghanfyddiad (yn gwbl ddi-sail) bob amser oedd bod yr IOPC yn hynod wrthrychol a ffurfiol, ond bod y staff mor agos atoch, cyfeillgar, profiadol, doniol, gwybodus, di-lol, tra yr oedd pob un yn broffesiynol iawn - fel aelod o'r cyhoedd yn ogystal ag ymarferydd roeddwn yn teimlo'n fwy sicr yr oedd yr IOPC yn sefydliad sy'n deg, moesegol ac yn gofalu am bobl go iawn."***

Ymatebwr arolwg, anhysbys

12. Mae corff plismona lleol yn derm ar y cyd am: Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddau (parthed Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan), y Cyngor Cyffredin (parthed Heddlu Dinas Llundain) ac unrhyw faer arall awdurdod cyfunol sy'n cyflawni swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Mae gan y cyrff hyn rôl gynyddol yn system gwynion yr heddlu yn weithredol o 1 Chwefror 2020.

NPCC a ddatblygodd y broses Adolygu Ymarfer Myfyriol newydd. Mae'r broses yn cydnabod y gall cwynion ddarparu cyfle ar gyfer myfyrio a datblygu, a'i fod yn darparu adnodd dysgu newydd i swyddogion a staff.

Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020, bu i ni gynnal 13 o ddigwyddiadau i gefnogi heddluoedd a chomisiynwyr yr heddlu a throseddau i ddeall yn well y system gwynion newydd a'u helpu i roi'r ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd ar waith. Denodd y digwyddiadau 400 o fynychwyr o Gymru a Lloegr, gyda 95% o ymatebwyr arolwg yn eu gweld yn weddol ddefnyddiol neu ddefnyddiol iawn. Dywedodd y rhan fwyaf (79%) o'r ymatebwyr fod mynychu'r digwyddiad wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'r system gwynion newydd a'u rôl oddi fewn iddi.

Bu i ddarn arall o adborth o swyddfa comisiynwyr yr heddlu a throseddau amlygu bod y digwyddiadau wedi mynd i'r afael â bwlch o ran gwybodaeth staff a'u helpu i deimlo'n hyderus wrth wneud penderfyniadau cadarn o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Ar y cyd â'r NPCC, y Swyddfa Gartref, Ffederasiwn yr Heddlu a chyrff plismona cenedlaethol eraill, bu i ni greu fideo yn egluro'r diwygiadau i'r system gwynion. Gwnaethom hefyd gydweithio ar boster yn annog swyddogion a staff i fyfyrio a dysgu o unrhyw gamgymeriadau neu wallau fel rhan o adeiladu diwylliant o wella. Dosbarthwyd y ddau i heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

Cyhoeddasom wyth rhifyn o 'Focus', ein cyhoeddiad i heddluoedd a chyrff plismona lleol. Roedd y rhain yn darparu canllawiau a chyngor ymarferol ar bynciau penodol lle'r oedd y rhai sy'n ymdrin â chwynion angen mwy o gymorth cyn ac yn syth ar ôl lansio'r system newydd. Er enghraifft, roedd un rhifyn yn cynnwys enghreifftiau o sut i ymdrin â honiadau am brif swyddogion. Roedd rhifyn arall yn trafod sut y gall y rhai sy'n ymdrin â chwynion sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio system gwynion yr heddlu yn effeithiol.

# Ein hapeliadau ac ymchwiliadau

## O 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020

**gwnaethom ymdrin â 2,838 o apeliadau dilys**

gwnaethom ymdrin â **1,370** o apeliadau ynglŷn â chwyn person heb ei chofnodi

gwnaethom gynnal **551** o apeliadau


gwnaethom ymdrin â **112** o apeliadau ynglŷn â sut oedd yr heddlu wedi ceisio datrys cwyn yn lleol

gwnaethom gynnal **42** o'r apeliadau hyn

gwnaethom ymdrin â **1,257** o apeliadau ynglŷn â sut ymchwiliwyd i gŵyn gan yr heddlu yn lleol


gwnaethom gynnal **425** o'r apeliadau hyn

**gwnaethom gwblhau 718 o ymchwiliadau annibynnol**






o'n hymchwiliadau wedi'u cwblhau cyn pen **chwe mis** – gwellhad o **5 pwynt canran** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol







o'n hymchwiliadau wedi'u cwblhau cyn pen **12 mis** – o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Mae hyn yn cynnwys pob ymchwiliad annibynnol. Ac eithrio achosion a reolir gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawrion (DMI), mae'r ffigwr hwn yn 83%

Ffynhonnell: Data perfformio 2019/20

# Defnyddio dysg

# i wella arferion yr heddlu



# Gweithio i adnabod a rhannu dysg sy'n gwella plismona, amddiffyn y cyhoedd ac atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto

Mae ein hymchwil[13] yn dangos yn gyson bod aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud cwyn ynglŷn â'r heddlu eisiau i'r rheiny sydd ynghlwm â'r gŵyn, a gwasanaeth ehangach yr heddlu, i ddysgu oddi wrthi. Adlewyrchir hyn mewn diwygiadau i'r system gwynion, a lansiwyd ar 1 Chwefror 2020, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu a gwella'n barhaus.

Rydym yn anelu at gael yr effaith fwyaf trwy adeiladu diwylliant o ddysgu a gwella'n barhaus fel bod gan y cyhoedd hyder, nid yn unig ein bod ni neu'r heddlu wedi ymateb i gwynion neu ddigwyddiadau difrifol, ond y bydd y gwersi a ddysgir ohonynt yn cael effaith hirdymor ar lefel unigol a sefydliadol.

Mae ein gwaith ar apeliadau/adolygiadau, ymchwiliadau, ymchwil ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn cynnig cyfleoedd i adnabod dysg er mwyn gwella'r gwasanaeth y mae'r heddlu yn ei ddarparu i'r cyhoedd. Rydym yn rhannu'r ddysg hon i atal materion tebyg rhag codi yn y dyfodol, sicrhau gwelliant parhaus a chefnogi arferion gorau. Cefnogir y dull hwn gan ein rhanddeiliaid sy'n credu bod canolbwyntio ar ddysgu yn fanteisiol i wasanaeth yr heddlu, y cyhoedd a'r IOPC[14].

13. Ers 2017, rydym wedi comisiynu arbenigwr ymchwil allanol i gynhyrchu olrheiniwr canfyddiadau'r cyhoedd, sy'n darparu mesur rheolaidd o hyder cyhoeddus trwy gydol y flwyddyn.
14. Ers 2016, rydym wedi comisiynu arbenigwr ymchwil allanol i gynnal astudiaethau ar brofiadau rhanddeiliaid o'n sefydliad.

# Sut ydym yn defnyddio gwersi o‘n gwaith

**Ein dysg**

### Y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus

- Datblygu a bod yn sail i ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â phlismona a system gwynion yr heddlu.
- Bod yn sail i bolisïau a deddfwriaeth mewn sectorau eraill - e.e. iechyd, carchardai, y system grwnerol, iechyd a diogelwch.

### Gwasanaeth yr heddlu

- Helpu i ddiogelu’r cyhoedd a’r heddlu ac osgoi pethau sydd wedi mynd o’u lle rhag digwydd eto.
- Gwella arferion, polisi, cyfarwyddyd, hyfforddiant, offer a systemau plismona.
- Gwella’r modd yr ymdrinnir â chwynion, y cynhelir materion a marwolaethau ac anafiadau difrifol yn cynnwys yr heddlu.

### Sefydliadau cymunedol a gwirfoddol

- Gwneud heddluoedd yn atebol lle bo gwelliannau hanfodol wedi’u hadnabod.
- Deall sut i gefnogi orau defnyddwyr gwasanaeth yn system gwynion yr heddlu.

### Cyrff plismona

- Bod yn sail i bolisi, cyfarwyddyd a hyfforddiant cenedlaethol a ddarperir gan y Coleg Plismona.
- Bod yn sail i arolygiadau o heddluoedd a chyfleusterau mewn dalfeydd.
- Gwneud heddluoedd yn atebol lle bo gwelliannau hanfodol wedi’u hadnabod.

### Heddluoedd rhyngwladol a chyrff arolygu

- Gwella arferion plismona, cryfhau mecanweithiau arolygu a chefnogi hawliau dynol mewn gwledydd eraill.

### Academyddion a chyrff ymchwil

- Bod yn sail i ymchwil a datblygiad gwyddonol.

Astudiaethau achos

# Helpu i wella diogelwch plismona ffyrdd

Yn 2018/19, roedd 42 o farwolaethau o ddigwyddiadau traffig y ffyrdd yn cynnwys yr heddlu - cynnydd o 13 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r ffigwr uchaf yn ystod y degawd diwethaf. Mae ein hymchwiliadau a Rhwydwaith Pwnc ar blismona ffyrdd yn helpu i adnabod dysg allweddol i wella plismona ffyrdd.

## Achos un

### Cyswllt tactegol

Bu i ni gynnal pum ymchwiliad yn cynnwys yr heddlu yn defnyddio cyswllt tactegol yn erbyn cerbydau dwy olwyn. Techneg yw cyswllt tactegol, y gellir ei defnyddio gan yrwyr yr heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, i ddod ag ymlid i ben trwy wneud cyswllt bwriadol â moped neu feic modur a yrrir gan droseddwr a amheuir. Adnabuom risgiau i'r heddlu, gyrwyr a'r cyhoedd oherwydd bwlch yn arweiniad plismona cenedlaethol ynglŷn â defnyddio'r dacteg hon.

Yn dilyn ein hargymhellion, cafodd canllawiau cenedlaethol eu diweddaru gan yr NPCC a'r Coleg Plismona i helpu swyddogion heddlu i ddefnyddio cyswllt tactegol yn fwy diogel. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru yn cefnogi swyddogion yn well i asesu'r sefyllfa a'r risgiau ynghlwm. Mae'n ymdrin â thactegau eraill, gan bwyso a mesur difrifoldeb y drosedd dybiedig a'r tebygolrwydd o achosi anaf i'r gyrwyr, eraill a nhw eu hunain. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r ffaith bod rhaid awdurdodi defnydd o gyswllt tactegol.

## Achos dau

### Defnydd o forthwyl bywyd

Bu i ni ymchwilio i ddigwyddiad traffig ar y ffordd pan darodd car a oedd yn cael ei ymlid gan yr heddlu gerbyd arall a lladd dau aelod o'r cyhoedd. Ar ôl y gwrthdrawiad, defnyddiodd swyddog forthwyl bywyd[15] er mwyn ceisio torri ffenestr y cerbyd arall i gyrraedd y rhai a oedd yn sownd yn y cerbyd. Ni lwyddodd y swyddog i dorri'r ffenestr yn defnyddio'r offeryn hwn ac felly defnyddiodd faton i fynd i mewn i'r cerbyd.

Bu i ni adnabod diffyg canllawiau ynghylch defnyddio morthwylion bywyd yn benodol mewn perthynas â hyfforddiant swyddogion, defnyddio dulliau eraill a disodli'r offeryn hwn pan nad yw'n effeithiol.

Derbyniodd yr NPCC a'r heddlu ynghlwm ystod o argymhellion dysgu. Ysgrifennodd cadeirydd yr NPCC at bob prif gwnstabl yn amlinellu'r materion a godwyd gan ein hymchwiliad, a'r camau gweithredu y dylai eu heddluoedd gymryd i roi'r gwersi hyn ar waith, lle bo'n berthnasol.

## Achos tri

### Defnydd o offer recordio clywedol yn ystod ymlidiau'r heddlu

Yn dilyn digwyddiad traffig ar y ffordd, anafwyd gyrrwr cerbyd a oedd yn cael ei ymlid gan yr heddlu yn ddifrifol. Anafwyd dau arall a oedd yn teithio yn y cerbyd hefyd. Canfu ein hymchwiliad nad oedd offer recordio clywedol yng ngherbyd yr heddlu wedi cael ei actifadu yn ystod yr ymlid. Golyga hyn nad oedd tystiolaeth a allai fod yn bwysig ar gael. Cadarnhaodd yr heddlu yr ystyriwyd actifadu'r offer hwn yn arfer orau, ond nad oedd yn ofynnol.

I sicrhau gwell tryloywder, bu i ni argymell bod yr heddlu yn gwneud actifadu offer recordio clywedol yn orfodol unwaith y mae swyddogion yn dechrau ymlid. Mae'r heddlu wedi diweddaru ei ganllawiau a hyfforddiant, gyda swyddogion bellach yn gorfod naill ai actifadu'r offer recordio yn y cerbyd (lle bo ar gael), neu ddefnyddio eu camera a wisgir ar y corff ar ddechrau'r ymlid.

15. Morthwylion bywyd yw offer a ddyluniwyd i'w defnyddio gan swyddogion heddlu neu ddefnyddwyr ffyrdd eraill i dorri'r ffenestri os ydynt yn sownd mewn cerbyd ac angen dianc. Gydag amser mae'r rhain yn colli graen ac effeithiolrwydd.

## Astudiaeth achos

# Newidiadau ar y defnydd o bwerau chwilio a gwarantau

Golyga ein hymchwiliad, Ymgyrch Kentia y bydd gan swyddogion heddlu ddealltwriaeth well o bwerau chwilio a gwarantau, gyda gwelliannau mewn hyfforddiant yn cael eu gweithredu yn genedlaethol a chan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan, yr heddlu ynghlwm â'r ymchwiliad hwn.

Fel rhan o Ymgyrch Kentia, ymchwiliwyd i ymddygiad yr heddlu mewn perthynas â cheisiadau am warantau chwilio a wnaed gan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan mewn cysylltiad ag Ymgyrch Midland, a oedd yn canolbwyntio ar ymchwilio i sawl dinesydd uchel ei barch am honiadau hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol a dynladdiad. Ni ddaeth ein hymchwiliad o hyd i dystiolaeth bod y swyddogion heddlu wedi camarwain barnwr llys sirol yn fwriadol wrth wneud cais am warantau chwilio, ond canfuwyd bylchau mewn prosesau a systemau.

Gwnaethom 16 argymhelliad i wella arferion plismona, a fydd yn arwain at newidiadau cenedlaethol i wneud cais am warantau chwilio a'u gwirio, yn ogystal â newidiadau sylweddol i bolisïau ac arferion yng Ngwasanaeth yr Heddlu Metropolitan. O'r 16 argymhelliad a wnaed, cafodd 13 (yn cynnwys naw argymhelliad a wnaed i Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan) eu derbyn[16], ni chafodd dau eu derbyn a chafodd un ei nodi fel un a oedd angen ai gyfeirio at y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r newidiadau canlynol wedi eu, neu ar ganol, cael eu gweithredu:

- mae dwy elfen o'r polisi plismona cenedlaethol wedi cael eu diweddaru a'u cyhoeddi gan y Coleg
- diweddarodd y Coleg hyfforddiant ymchwilwyr proffesiynol i gynnwys yn benodol ganlyniadau am bwerau chwilio a gwarantau chwilio
- cynhaliodd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan ystod o weithgareddau i adolygu canllawiau, darparu hyfforddiant gloywi, cyfathrebu â staff a diweddaru deunyddiau hyfforddiant
- mae Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan yn adolygu ei broses i wella cyfathrebu â'r rhai dan amheuaeth sy'n mynychu cyfweliadau yn wirfoddol

*"Rwy'n parhau'n optimistaidd y bydd yr argymhellion hyn, ynghyd â'r holl wersi eraill sydd gennym yn y maes hwn, yn gwella arferion gweithio yn y Met, ac …mae newidiadau tymor byr eisoes wedi'u gwneud. Rwy'n croesawu dull gweithredu'r IOPC...canolbwyntio'n glir iawn ar ddysgu a gwella."*

Cressida Dick, Comisiynydd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan

16. Ni dderbyniwyd un argymhelliad ynglŷn â diwygio canllawiau statudol i wneud ceisiadau am warant chwilio yn fwy clir. Mae hyn oherwydd roedd y derbynnydd yn teimlo y gallai Bwrdd Strategaeth yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol ymdrin ag ef, gan weithio â'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Droseddol, i sicrhau yr ymdrinnir â phryderon ynghylch y ceisiadau hyn. Roedd yr argymhelliad arall yn ymdrin â sicrhau bod heddluoedd yn cymryd camau i sicrhau crynodeb teg a chytbwys o'r rhesymau am beidio â chymryd camau gweithredu eraill ar ddiwedd ymchwiliad yn cael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Ni aethpwyd â hyn ymhellach o ganlyniad i bryderon am ymdrinniaeth deg o'r rhai dan amheuaeth yn ystod ac ar ôl ymchwiliadau.

*"Bydd yr [argymhellion] hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gyda swyddogion heddlu yn derbyn hyfforddiant gwell a meddu ar ddealltwriaeth well o bwerau chwilio a gwarantau, yn benodol o amgych materion megis dyletswydd datgelu ac atafaelu eiddo."*

Michael Lockwood, Cyfarwyddwr Cyffredinol

- cytunodd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Droseddol[17] i ddiwygio'r nodiadau canllaw ar geisiadau am warantau chwilio
- datblygodd y Coleg ganllawiau mwy clir i gefnogi prif swyddogion wrth gyfathrebu'r safbwynt cenedlaethol ynghylch y 'diwylliant o gred'[18]
- gweithiodd y Coleg yn agos â'r NPCC a Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan i ddatblygu cyfathrebiadau clir ynghylch safbwynt yr heddlu ar 'gred'. Mae trafodaethau terfynol yn mynd rhagddynt i sicrhau bod y deunyddiau y mae heddluoedd yn eu derbyn yn rhoi'r wybodaeth gliriaf bosib
- diweddarodd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan ei bolisi cyfryngau i ymgorffori'n llawn bolisi'r Coleg ar gysylltiadau â'r cyfryngau

Mae'r IOPC hefyd yn argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried costau a buddion recordio gwrandawiadau ceisiadau am warant chwilio yn glywedol, ac a ddylai hyn ffurfio rhan o'r broses wrandawiad.



17. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Droseddol yn llywodraethu'r ffordd y rheolir achosion troseddol, ac yn amlinellu prosesau llysoedd troseddol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ddiwygio a chreu Rheolau Gweithdrefn Droseddol newydd.
18. Mae'r diwylliant o gred yn sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr o recordio trosedd. Y bwriad yw bod y rheiny sy'n rhoi gwybod am drosedd yn cael eu credu, eu trin ag empathi a bod eu honiadau yn cael eu cymryd o ddifrif. Dylid bwrw ati ag unrhyw ymchwiliad sy'n dilyn gyda meddwl agored i sefydlu'r gwirionedd.

# Argymhellion dysgu sefydliadol

**Er bod y rhan fwyaf o'r cwynion, ymchwiliadau ac apeliadau yn canolbwyntio ar achosion unigol, gallant hefyd gael effaith ehangach o lawer lle'r ydym ni'n canfod bod angen dysg neu welliant ar lefel sefydliadol neu genedlaethol.**

Gall ein hargymhellion ddod â newidiadau i blismona a diogelu aelodau'r cyhoedd a'r heddlu trwy:

- atal digwyddiadau cyffelyb lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le
- codi ymwybyddiaeth o fylchau mewn polisi neu hyfforddiant
- tynnu sylw at broblemau gydag offer, systemau neu arferion
- annog lluoedd i fabwysiadu arferion da

O 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020, bu i ni wneud 105 o argymhellion dysgu sefydliadol[19].

- gwnaed 90 o argymhellion dysgu i heddluoedd lleol
- gwnaed 81 o argymhellion ynglŷn â pholisi neu ganllawiau
- gwnaed 19 o argymhellion ynglŷn â hyfforddiant i swyddogion heddlu a staff
- targedwyd 15 o argymhellion at sefydliadau cenedlaethol, megis yr NPCC a'r Coleg
- gwnaed pump o argymhellion ynglŷn â deddfwriaeth, rheoli cofnodion a darpariaeth offer i swyddogion

Ffynhonnell: Olrheiniwr argymhellion yr IOPC

19. Gwnaed saith deg saith o argymhellion dan baragraff 28A Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* a gwnaed 28 argymhelliad y tu allan i ddarpariaethau paragraff 28A. O'r 77 o argymhellion a wnaethom dan baragraff 28A, derbyniwyd 65 a gwrthodwyd tri. Rydym yn disgwyl am ymatebion i'r 9 sy'n weddill.

## Astudiaeth achos

# Gwella ymdriniaeth o honiadau o stelcio ac aflonyddu

Ar ôl i fenyw gael ei llofruddio gan ei chyn-bartner, arweiniodd ein hymchwiliad at swyddogion heddlu yn cael cyfarwyddyd cenedlaethol i beidio â chyflwyno Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu[20] mewn achosion o stelcio ac aflonyddu. Cafodd yr argymhelliad ei gyhoeddi i brif gwnstabliaid pob heddlu yng Nghymru a Lloegr gan yr NPCC yng ngoleuni llofruddiaeth y fenyw yn nwylo ei chyn-bartner a oedd wedi treulio misoedd yn ei stelcio a'i haflonyddu.

Yn y misoedd cyn ei marwolaeth, gwnaeth y fenyw sawl adroddiad i'r heddlu, ond cafodd ddiryw am wastraffu amser yr heddlu ar ôl iddi fethu â datgelu'r berthynas â'i chyn-bartner i ddechrau. Cafodd yr achos o aflonyddu ei gau cyn i'w phledion am help gael eu hymchwilio iddynt yn briodol.

Yn ein hadroddiad terfynol i gyswllt yr heddlu gyda'r fenyw cyn iddi farw, bu i ni ganfod nifer o fethiannau gan yr heddlu. Canfuwyd bod dau swyddog, a oedd wedi gadael yr heddlu cyn gweithdrefnau disgyblu, wedi cyflawni camymddygiad difrifol a chamymddygiad yn eu tro yn y ffordd y bu iddynt ymdrin â'r honiadau, ac am fethu â chydymffurfio â pholisïau'r heddlu ynghylch trais domestig. Rhoddwyd y swyddog a gyflawnodd gamymddygiad difrifol ar Restr Wahardd yr Heddlu. Cafodd trydydd swyddog rybudd ysgrifenedig ar ôl casglu ei fod wedi cyflawni camymddygiad difrifol yn y ffordd y bu iddo ymdrin â honiadau'r fenyw. Derbyniodd y tri swyddog gamau rheoli[21].

Bu i ni wneud 16 argymhelliad i'r heddlu, gan ei gynghori i wella hyfforddiant i swyddogion a staff, asesiadau risg, gwaith cofnodi gwybodaeth a gwaith adnabod dioddefwyr stelcio a'r rhai sydd yn stelcio ar ei systemau.

O ganlyniad, mae mwy na 2,600 o swyddogion a staff ar draws yr heddlu wedi cwblhau pecyn e-ddysgu ynghylch stelcio ac aflonyddu. Darparodd yr heddlu hyfforddiant stelcio a bregusrwydd hefyd i dros 800 o swyddogion a staff i sicrhau yr adnabyddir patrymau ymddygiad stelcio ac y gweithredir. Mae dros 250 o swyddogion a staff wedi cael hyfforddiant fel pwyntiau cyswllt trais domestig, ac mae dros 50 o staff wedi cael hyfforddiant fel pwyntiau cyswllt stelcio ac aflonyddu i adolygu digwyddiadau a darparu cymorth i staff ar draws yr heddlu.

*O ganlyniad, mae mwy na 2,600 o swyddogion a staff wedi cwblhau pecyn e-ddysgu ar stelcio ac aflonyddu .*

Diweddarodd yr heddlu ei bolisi a systemau i sicrhau bod:

- asesiadau risg yn cael eu cwblhau ym mhob achos o stelcio ac aflonyddu
- honiadau o stelcio ac aflonyddu yn cael eu cofnodi'n glir
- dioddefwyr a chyflawnwyr yn ymwybodol o systemau'r heddlu

Mae staff yr ystafell reoli wedi cael hyfforddiant diwygiedig ar gynnal chwiliadau ar systemau cyfrifiadurol yr heddlu a chofnodi gwybodaeth am honiadau neu ddigwyddiadau parhaus. Mae canllawiau wedi cael eu cyhoeddi hefyd gan yr heddlu i egluro na ddylid cyflwyno tâl cosb gosodedig mewn achosion o drais domestig mwyach.

Gan ychwanegu at alwadau blaenorol gan HMICFRS a'r NPCC, bu i ni hefyd argymell bod yr NPCC yn cynghori lluoedd na ddylid cyflwyno Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu mewn achosion sy'n cynnwys stelcio neu aflonyddu. Gwnaed hyn ar unwaith.

20. Cyflwynwyd Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu i gyflawnwyr honedig o aflonyddu, yn eu rhybuddio am eu hymddygiad. Nid oedd yr hysbysiadau hyn yn gyfystyr â gweithredu cyfreithiol ffurfiol ac nid oeddynt yn rhybuddion ffurfiol gan yr heddlu.
21. Camau rheoli yw lle mae rheolwr yn ymdrin â sut mae swyddog heddlu neu aelod o staff wedi ymddwyn. Gall gynnwys: dangos i'r swyddog heddlu neu aelod o staff sut mae eu hymddygiad wedi methu cyflawni'r disgwyliadau fel y'i cyflwynir yn y safonau ymddygiad proffesiynol; nodi disgwyliadau ymddwyn at y dyfodol; neu ymdrin ag unrhyw achosion gwaelodol wnaeth achosi'r camymddygiad.

# Cylchgronau Learning the Lessons

**Mae ein cylchgronau Learning the Lessons yn cefnogi heddluoedd i wella polisi ac arferion yr heddlu. Mae astudiaethau achos byrion, dienw a chwestiynau ynglŷn ag achosion go iawn yn helpu darllenwyr i ystyried a oes angen iddynt wneud unrhyw newidiadau yn eu heddlu eu hunain.**

Y llynedd bu i ni lansio panel yn dwyn ynghyd ystod o randdeiliaid i'n cefnogi ni i ddatblygu rhifynnau newydd o'r cylchgrawn. Bu i gynrychiolwyr o blismona, y gymuned, y sector gwirfoddol a'r byd academaidd ddarparu cyngor a chanllawiau ar gynnwys i'r cylchgronau. Eleni cyhoeddasom rifynnau ar y ddalfa, pobl ar goll a phobl ifanc. Mae oddeutu 1,000 o bobl yn cael y cylchgrawn a chaiff ei lawrlwytho dros 5,000 o weithiau o wefan yr IOPC yn ystod y flwyddyn.

Roedd y rhifyn ar y ddalfa yn cynnwys gwersi ynglŷn â chyfathrebu, defnyddio offer lles[22], a gwiriadau ar bobl a gedwir yn y ddalfa. Roedd yn cynnwys erthyglau ar ganfyddiadau o arolygiadau dalfa diweddar HMICFRS ac ymchwil academaidd ar arferion da yn y ddalfa.

***"… Mae [Learning the Lessons] yn helpu i wneud ein pecynnau hyfforddiant yn briodol i risgiau a sefyllfaoedd sy'n gyfredol… fel arweinydd hyfforddiant cymorth cyntaf yn y ddalfa mae'n sicrhau fy mod yn ymwybodol o'r materion a digwyddiadau diweddaraf yn y ddalfa sy'n digwydd yn genedlaethol ac rwy'n addasu fy mhecynnau hyfforddiant o amgylch y pynciau hyn."***

Adborth gan ddarllenwr anhysbys ar rifyn y ddalfa Learning the Lessons

Roedd y rhifyn ar bobl ar goll yn cynnwys adran newydd ar arloesi a gwella i amlygu arferion da mewn heddluoedd a sefydliadau nad ydynt yn heddlu - dyweddodd 93% o bobl a ddarparodd adborth ar y rhifyn hwn eu bod eisiau gweld cynnwys tebyg mewn cylchgronau yn y dyfodol. Roedd y cylchgrawn hefyd yn cynnwys cyfrifon gan dri o bobl a rannodd eu profiad bywyd o ymchwiliadau i bobl ar goll. Hyrwyddwyd y cylchgrawn i 400 o gynrychiolwyr yng Nghynhadledd Genedlaethol Pobl ar Goll.

Cafodd y rhifyn ar bobl ifanc ei olygu gan aelodau o Banel Ieuenctid yr IOPC, gan amlygu senarios a chanlyniadau gwahanol ryngweithiadau go iawn rhwng pobl ifanc a'r heddlu. Gwnaethant rannu eu profiadau o gyswllt â'r heddlu a darparu awgrymiadau defnyddiol i heddlu sy'n gweithio â phobl ifanc. Mae'r cynnwys hwn bellach wedi cael ei ddylunio fel poster a bydd yn cael ei ddosbarthu i bob gorsaf heddlu ledled Cymru a Lloegr. Lansiwyd y cylchgrawn yng Nghynhadledd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant yr NPCC fis Ionawr 2020.

22. Y gwersi ynghlwm ag offer lles yn ymwneud â mynediad at gadeiriau olwyn, mynediad at ddillad gwrth-rwygo, a'r risg a berir gan linynnau achub bywyd coch mewn toiledau anabl.

Mae ein darllenwyr yn gwerthfawrogi'r enghreifftiau ymarferol a chanllawiau a geir yn y cylchgrawn, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion plismona ar lawr gwlad.


***"[Rwy'n cylchredeg Learning the Lessons] yn eang ar draws yr heddlu. Mae perchnogion busnes dirprwyedig yn adolygu achosion, y cwestiynau allweddol a'r camau gweithredu a gymerir gan yr heddlu dan sylw, yn cymharu â pholisiau, gweithdrefnau ac arferion yn eu maes busnes ac yn cymryd camau gweithredu angenrheidiol os oes diffygion yn bresennol er mwyn atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto yn yr heddlu hwn."***

Anhysbys, trwy arolwg adborth darllenwyr am ein rhifyn ar bobl ar goll


## *Yr hyn a ddengys yr adborth*




**2,009** o bobl
**wedi lawrlwytho'r rhifyn hwn o'n gwefan**





o ymatebwyr yn bwriadu rhannu'r rhifyn ar y ddalfa gyda chydweithwyr i helpu i rannu'r gwersi sydd yno





o ymatebwyr sy'n gweithio yn y maes dalfa yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn cyfathrebu gyda phobl sydd wedi'u dwyn i'r ddalfa




**1,335** o bobl
**wedi lawrlwytho'r rhifyn hwn o'n gwefan**





o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn cyfathrebu gyda phobl y mae eu cyfeillion, teulu neu anwyliaid ar goll





o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn ymdrin ag ymchwiliadau pobl ar goll




**1,410** o bobl
**wedi lawrlwytho'r rhifyn hwn o'n gwefan**




o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn rhyngweithio â phobl ifanc maent yn dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith




o ymatebwyr yn dweud y byddant yn ystyried gwneud newidiadau i unrhyw bolisi, cyfarwyddyd neu hyfforddiant maent yn gyfrifol amdano i adlewyrchu gwersi o'r cylchgrawn

Ffynhonnell: Arolygon adborth Learning the Lessons

# Dylanwadu ar y darlun ehangach

**Mae cyfrannu at ymholiadau ac ymgynghoriadau yn un ffordd yr ydym yn helpu i rannu ac uchafu'r ddysg o'n gwaith. Gall hyn helpu i ffurfio a dylanwadu ar newidiadau nid yn unig i blismona, ond ar draws y system cyfiawnder troseddol a sectorau eraill.**

Bu i ni ddefnyddio ein profiad a'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith i helpu llywio'r:

- ymgynghoriadau gan y Swyddfa Gartref ar drwyddedu arfau tanio a newidiadau i ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth
- ymgynghoriad gan y Coleg ar god ymddygiad ynghylch heddlu arfog a defnydd yr heddlu o arfau llai angheuol
- adolygiad strategol gan Sefydliad yr Heddlu o blismona yng Nghymru a Lloegr
- rhaglenni arolygu plismona a ymgymerir gan HMICFRS

Gwnaethom hefyd lywio adroddiadau a chanllawiau cenedlaethol a ddatblygwyd gan gyrff plismona. Ym mis Mawrth 2020, cyhoedd yr NPCC y Strategaeth Genedlaethol ar Blismona ac Iechyd Meddwl. Bu i ni ddefnyddio ein gwersi o'n gwaith i helpu i lywio strategaeth yr NPCC. O ganlyniad, gwnaed sawl diwygiad i'r strategaeth cyn ei chyhoeddi, yn cynnwys:

- adolygu egwyddor graidd i amlygu pwysigrwydd tawelu[23] a dulliau cyfyngu[24] yn hytrach nag atal
- ychwanegu amcan strategol gan atgyfnerthu'r angen i heddluoedd adolygu eu hyfforddiant iechyd meddwl yn rheolaidd, yn cynnwys ystyried gwersi o ymchwiliadau'r IOPC, argymhellion crwneriaid ac arolygiadau HMICFRS
- ychwanegu adran am bobl gyda phryderon iechyd meddwl a chwynion yr heddlu. Roedd hyn yn seiliedig ar ein hymchwil, a ganfu fod nifer o rwystrau i ddefnyddio system gwynion yr heddlu i bobl â phryderon iechyd meddwl. Atgyfnerthodd hyn pa mor bwysig yw hi eu bod nhw'n hyderus bod eu pryderon yn cael eu trin mewn ffordd deg a thrylwyr

Gwnaethom rannu gwybodaeth i helpu HMICFRS i gynhyrchu ei adroddiad ar Taflu goleuni ar frad: Manteisio ar safle at ddibenion rhywiol. Gwnaethom ddarparu data ar achosion ac adolygu'n feirniadol yr adroddiad, yn ogystal â chwarae rôl ar grŵp cyfeirio allanol, a wnaeth helpu i lywio'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

***"Ysgrifennaf atoch i ddiolch yn fawr i chi am fod yn rhan o'n grŵp cyfeirio allanol gan helpu i lywio'r darn pwysig hwn o waith. Roedd llwyddiant yr adroddiad hwn yn ganlyniad cymorth, cyfarwyddyd a chyngor arbenigol gan y grŵp."***

Zoë Billingham
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

23. Mae tawelu yn ffordd o leihau dwyster sefyllfa neu wrthdaro.
24. Mae cyfyngu yn ffordd o gadw sefyllfa niweidiol dan reolaeth.

# Argymhellion dysgu (yn ôl thema)

| Thema | % |
|---|---|
| Prosesau ymchwilio | 18% |
| Cofnodi, trin a rhannu gwybodaeth | 16% |
| Gwarantau chwilio | 7% |
| Ymdrin â galwadau | 6% |
| Dalfa | 6% |
| Arall* | 24% |
| Cam-drin domestig a chymorth i ddioddefwyr | 6% |
| Plismona ffyrdd | 5% |
| Defnydd o systemau cyfrifiadurol yr heddlu | 5% |
| Iechyd meddwl | 4% |
| Gofal meddygol a ddarperir gan yr heddlu | 3% |

*'Arall' yn cynnwys argymhellion yn gysylltiedig â'r canlynol:
- ymdrin â mater o farwolaeth neu anaf difrifol
- ymchwilio i gam-fanteisio rhywiol ar blant
- arfau tanio
- rheoli a goruchwylio
- penderfyniadau yn ystod ymchwiliadau'r heddlu

**83%** o argymhellion dysgu wedi'u gwneud i heddluoedd lleol

**77%** o argymhellion ar bolisi neu ganllawiau

**18%** o argymhellion yn ymwneud â hyfforddiant i swyddogion heddlu a staff

**17%** o argymhellion wedi'u gwneud i gyrff plismona cenedlaethol a sefydliadau eraill*

*megis y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder



# Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

# Ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid a chymunedau fel eu bod yn deall sut i ddefnyddio a chael hyder yn system gwynion yr heddlu

Rydym yn gweithio gydag ystod o eang o bobl ac yn gwrando arnynt yn cynnwys y rheiny sy'n cyflwyno cwynion, teuluoedd, swyddogion a staff yr heddlu, a grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Yn ogystal, rydym yn gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol i adnabod lle gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn unigol ac ar y cyd.

Mae gan ein gwaith ffocws penodol ar gynyddu hyder y rhai yr ydym yn gwybod bod ganddynt leiaf o ymddiriedaeth yn y system – er enghraifft, pobl ifanc a'r rhai o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Rydym eisiau sicrhau bod y grwpiau hyn yn deall eu hawl i gwyno a chael hyder wrth gael mynediad at y system gwynion a'i defnyddio.

Yn y pen draw, bydd y newidiadau a wneir o ganlyniad i'n gwaith a gwrando ar ein defnyddwyr gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol trwy wella system gwynion yr heddlu, gwella plismona a helpu i ddiogelu'r cyhoedd.

| | Pobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg | Aelodau o'r cyhoedd o gefndir BAME sy'n hyderus bod yr heddlu yn delio â chwynion yn deg | Pobl ifanc sy'n ymwybodol o'r IOPC | Aelodau o'r cyhoedd o gefndir BAME sy'n ymwybodol o'r IOPC |
|---|---|---|---|---|
| 2019/20 | 52% | 41% | 37% | 48% |
| 2018/19 | 41% | 38% | 22% | 32% |

Ffynhonnell: Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2019/20 a chrynodeb adroddiad 2018/19

# Gweithio gyda phobl ifanc

**Dengys ymchwil fod gan bobl ifanc lefelau is o hyder yn system gwynion yr heddlu nag eraill. Maent hefyd yn llai parod i gwyno ac yn llai tebygol o fod wedi clywed am yr IOPC.**

Dyma faes ffocws pwysig i ni ac ym mis Ionawr 2018 gwnaethom sefydlu Panel Ieuenctid i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r panel yn ein helpu i ddeall pam fod gan bobl ifanc lefelau is o hyder yn system gwynion yr heddlu nag eraill, ac archwilio sut y gallwn gynyddu hyder pobl ifanc yn y system.


Bu i ymgynghoriad y Panel Ieuenctid â dros 800 o bobl ifanc helpu i ddarparu dealltwriaeth well o bryderon pobl ifanc ynglŷn â system gwynion yr heddlu. Adroddodd y rheiny a gymerodd ran deimladau o ddiffyg grym, profiadau negyddol gyda'r heddlu ac anawsterau yn llywio'r system gwynion. Eleni, mae'r panel wedi ein helpu ni i weithredu ystod o argymhellion, y bu iddynt ddeillio o'r ymgynghoriad hwn.

Fel rhan o Gynhadledd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant yr NPCC, rhanodd y Panel Ieuenctid y canfyddiadau o'r ymgynghoriad hwn â chynulleidfa yn cynnwys uwch swyddogion heddlu o heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Roedd eu neges yn rhoi llais i broblemau cyffredin a brofir gan bobl ifanc wrth ddelio â'r heddlu. Cafodd fideo a phostiadau y bu i ni rannu ar gyfrif Instagram ieuenctid yr NPCC am sut i wneud cwyn eu gweld gan 700 o bobl. O'r rhain, pleidleisiodd 250 mewn pôl piniwn, gyda 76% yn dweud y byddent yn hyderus yn gwneud cwyn ar ôl gwylio'r fideo.

Mynychodd y panel ystod o ddigwyddiadau eraill hefyd i wella ymgysylltiad ac adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, siaradodd aelod o'r panel â swyddogion cyswllt ysgolion ac aelodau o dîm troseddwyr ifanc am ein rôl a gwaith y panel.

Helpodd Aelodau o'r Panel Ieuenctid i ddarparu hyfforddiant i staff yn ein canolfan Gyswllt Cwsmeriaid. Mae hyn yn rhan o'n gwaith parhaus i wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i bobl ifanc a chodi eu hyder yn y system gwynion.

**Ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r IOPC**





Ffynhonnell: Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2019/20 a chrynodeb adroddiad 2018/19

Gan weithio gyda'r panel, gwnaethom hefyd ddatblygu canllaw i bobl ifanc i system gwynion yr heddlu, gan gyfathrebu'n glir a phendant yr hyn sydd angen iddynt ei wybod, a beth y gallant ei ddisgwyl os ydynt yn gwneud cwyn.

Gwnaeth y panel hefyd roi cyngor i ni ar effaith ymchwiliad stopio a chwilio proffil uchel yn cynnwys pobl ifanc. Helpodd eu hallbwn i lywio ein hasesiad o effaith y digwyddiad hwn ar y gymuned leol, a sut y bu i ni ymgysylltu â'r gymuned.

Ein paneli ieuenctid dan arweiniad cyfoedion




## Adborth gan ein Panel Ieuenctid

*"Rydym [wedi] cael cyfle unigryw i leisio barn pobl ifanc sy'n aml yn teimlo eu bod wedi'u tawelu gan sefydliadau mwy na nhw. Mae cael sefydliad mor bwerus â'r [IOPC] yn gweithio'n egnïol i wrando ar y pryderon, sydd gennym ni, fel pobl ifanc Cymru a Lloegr, yn rymus... Rwyf wedi fy ysbrydoli gan ymdrech yr IOPC i wneud system gwynion yr heddlu yn hygyrch yn fwy eang i bobl nad oeddent o'r blaen yn ymwybodol o lle i fynd wrth wneud cwyn."*

Shawny, aelod o Banel Ieuenctid yr IOPC

*"Mae'r [panel] wir wedi rhoi llais i bobl ifanc, yn enwedig y rheiny o gefndir BAME, i fynegi pryderon a siapio cyfeiriad plismona a'r system cyfiawnder troseddol ar y cyfan, o ddifrif... Ar y dechrau roeddwn yn pryderu mai ticio'r blwch ymgysylltu â'r cyhoedd oedd y panel ieuenctid hwn ac y byddai drosodd ymhen blwyddyn, ond wedi dweud hynny mae'r panel ieuenctid bellach wedi dod yn rhan sylweddol a phwysig o ymgysylltu ac mae'n parhau i gefnogi cyfeiriad plismona a'r system gwynion."*

Ahmed, aelod o Banel Ieuenctid yr IOPC

*"Mae'r prosiect hwn wedi caniatáu i bobl ifanc o bob cwr o Gymru a Lloegr i gymryd rhan weithredol â'r IOPC a dylanwadu ar newid cadarnhaol ar lefel uwch gan weithio ar y cyd i gynhyrchu mwy o arferion a gweithdrefnau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc â'r nod o rymuso, addysgu ac ymgysylltu nifer uwch o bobl ifanc. Mae'r prosiect wedi rhoi cyfle i mi adeiladu fy hyder a gwybodaeth o'r system i ddilyn trywydd cwyn o'm profiad fy hun â'r heddlu."*

Anna-Louise, aelod o Banel Ieuenctid yr IOPC

# Codi ymwybyddiaeth o'r IOPC

**Mae deall ein rôl yn rhan bwysig o ddatblygu hyder yn system gwynion yr heddlu ac rydym yn gweithio'n galed i gynyddu hyn trwy gyfathrebu ac ymgysylltu gwell.**

Fis Mawrth 2019, dywedodd ymchwil wrthym fod 40% o ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC. Er bod llawer mwy o waith i'w wneud eto i sicrhau bod y cyhoedd yn deall ein rôl a'n gwaith, mae ymchwil diweddar yn dangos cynnydd, gyda 51% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC[25].

Rydym yn darparu gwybodaeth yn rhagweithiol ynglŷn ag achosion i'r cyfryngau ac yn cyhoeddi datganiadau newyddion. Mae sylw yn y cyfryngau yn ein helpu ni i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a gall gyfrannu at hyder y cyhoedd yng ngoruchwyliaeth effeithiol yr heddlu. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau a chyhoeddiadau.

Mae cyhoeddi gwybodaeth yn sicrhau tryloywder i'r cwynion a digwyddiadau mwyaf difrifol, yn cynnwys bod yn glir ynglŷn â beth all heddluoedd ddysgu oddi wrthynt. Mae hefyd yn golygu y gall aelodau'r cyhoedd weld pa faterion sy'n codi mewn perthynas â'u heddlu lleol a phlismona yn fwy cyffredinol, sut yr ymdrinnir â materion, a sut mae eu heddlu yn cymharu ag eraill.

Mae'r wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi yn cynnwys:

- adroddiad blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Mae hwn yn darparu trosolwg o natur ac amgylchiadau pob marwolaeth
- ystadegau chwarterol a blynyddol ar gwynion yr heddlu, ar lefel heddlu lleol a lefel genedlaethol
- adroddiadau a chrynodebau ymchwiliadau
- argymhellion dysgu sefydliadol o ymchwiliadau, apeliadau ac adolygiadau i wella arferion plismona

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnal sawl digwyddiad estyn allan i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'n sefydliad mewn cymunedau lleol.

Er enghraifft, mynychodd pobl o grwpiau anodd eu cyrraedd ddigwyddiad yng ngogledd-orllewin Lloegr[26] yn ogystal â chynrychiolwyr o swyddfeydd ASau, swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, llywodraeth leol, grwpiau cymunedol a sefydliadau ffydd. Roedd y digwyddiad yn ymdrin â pham y cafodd yr IOPC ei greu, ein rôl, a sut ydym yn gweithio.

25. Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2019/20.
26. Dengys ein hymchwil, o'i gymharu â'r cyhoedd cyffredinol, fod hyder yn system gwynion yr heddlu yn is ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd a phobl ifanc.

**Cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o'r IOPC**

**51%** Mawrth 2020

**40%** Mawrth 2019

Ffynhonnell: Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2019/20

Yn dilyn y digwyddiad, roedd 100% o ymatebwyr arolwg yn teimlo bod eu dealltwriaeth o'n rôl yn y system gwynion wedi cynyddu. Dywedodd naw deg pump y cant fod y digwyddiad wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'n gwaith, a chawsom geisiadau eraill gan y sefydliadau hyn i ddysgu mwy am ein gwaith.

Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid plismona i chwalu camdybiaethau am ein gwaith.

Mynychodd oddeutu 60 o sefydliadau plismona y digwyddiad, a'i nod oedd helpu mynychwyr i ddeall yn well ein gwaith o fewn system gwynion yr heddlu. Roedd adborth o'r digwyddiad yn gadarnhaol, gyda 90% o ymatebwyr arolwg yn teimlo bod y diwrnod yn ddefnyddiol iddynt, a 95% yn dweud bod eu hymwybyddiaeth o'r IOPC wedi cynyddu.

## Astudiaeth achos

### Cynhadledd Cymru ar blismona ffyrdd

Gyda marwolaethau o ddigwyddiadau traffig y ffyrdd yn ymwneud â'r heddlu yn cynyddu yn 2018/19, ym mis Hydref 2019 gwnaethom gynnal cynhadledd yng Nghymru ar blismona ffyrdd a rheoli ar ôl digwyddiad[27]. Mynychodd saith deg pump o gynrychiolwyr o heddluoedd yng Nghymru a de-orllewin Lloegr, ac o Sefydliad yr Heddlu y gynhadledd, ynghyd â'n staff ein hunain. Rhannodd y digwyddiad wybodaeth a phrofiadau o:

- rôl a gwaith ymchwilydd damweiniau'r heddlu
- rôl rheolwyr cyswllt teulu yn ein hymchwiliadau
- canllawiau ar reoli ar ôl digwyddiad
- gwaith ein Rhwydwaith Pwnc ar Blismona Ffyrdd

Roedd astudiaethau achos y cyfeiriwyd atynt trwy gydol y gynhadledd yn mynd i'r afael â materion cyffredin y deuir ar eu traws wrth blismona ffyrdd, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys yr heddlu ac a arweiniodd at farwolaeth neu anaf difrifol.

Canfu naw deg pump o ymatebwyr arolwg y gynhadledd yn weddol ddifyr neu ddifyr iawn.

27. Mae rheoli ar ôl digwyddiad yn cyfeirio at weithdrefnau sy'n dilyn digwyddiadau difrifol penodol yn cynnwys yr heddlu sy'n arwain at farwolaeth neu anaf difrifol neu'n datgelu methiannau o ran rheoli. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau bod ymchwiliad dilynol yn cael ei gynnal mewn modd sy'n cefnogi lles partïon perthnasol, yn sicrhau'r dystiolaeth orau ac yn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn uniondeb y broses.

# Gwella sut ydym yn diwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth

**Bob dydd rydym yn rhyngweithio gyda gwahanol bobl. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r safonau uchaf posibl o ran gwasanaeth cwsmer, ond yn ymwybodol bod defnyddwyr gwasanaeth wedi tynnu sylw yn flaenorol at yr angen i ni ddarparu mwy o gyfathrebiad ystyrlon gyda nhw.**

I wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu, gweithiasom tuag at ennill achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer®[28] fis Mawrth 2020.

Mae'r Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn profi'r meysydd hynny y mae ymchwil wedi'u nodi fel blaenoriaeth i gwsmeriaid, gyda ffocws ar ddarparu, prydlondeb, gwybodaeth, proffesiynoldeb ac agwedd staff. Mae pwyslais hefyd ar ddatblygu dealltwriaeth o gwsmeriaid, deall profiad y defnyddiwr a dull mesur boddhad â'r gwasanaeth cadarn.

Cyn yr asesiad, gwnaethom gytuno ar 94 gweithgaredd i sicrhau ein bod yn rhoi defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith. Roedd hyn yn cynnwys datblygu 'personâu' defnyddwyr gwasanaeth a chodi ymwybyddiaeth o Safonau Defnyddwyr Gwasanaeth ymhlith staff.

Gwnaethom arddangos cydymffurfiad â phob un o'r 57 maen prawf asesu a chyflawni sgôr 'cydymffurfiad ychwanegol' mewn tri maes, sy'n golygu ein bod wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion.

***"Byddaf yn rhannu fy mhrofiad gyda'm cydweithwyr, felly os yw un ohonynt yn canfod eu hunain dan ymchwiliad yn y dyfodol byddant yn sicr y cynhelir yr ymchwiliad...yn brydlon a phroffesiynol."***

Swyddog heddlu, anhysbys

28. Mae Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer® yn safon a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n arddangos ymrwymiad sefydliad i wasanaeth cwsmer. Mae'r achrediad yn asesu 57 elfen, sy'n cael eu rhannu ar draws pum maen prawf allweddol; dealltwriaeth o gwsmeriaid; diwylliant sefydliadol; gwybodaeth a hygyrchedd; cyflawni; a phrydlondeb ac ansawdd y gwasanaeth.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID®
CSE

Golyga natur ein gwaith ein bod yn aml yn rhyngweithio â chwsmeriaid nad ydynt yn cytuno â chanlyniadau ein hymchwiliadau neu benderfyniadau. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosib na fydd ein holl gwsmeriaid yn fodlon, ond mae ganddynt yr hawl i ddisgwyl safonau uchel a thegwch. Mae cyflawni'r achrediad hwn yn arddangos ein ffocws ar y meysydd hyn.

***"Mae newid mawr wedi bod… roeddwn yn bryderus iawn am yr IPCC a'u hymagwedd gyffredinol at honiadau a wnaed yn erbyn swyddogion yr heddlu. Roedd ganddynt safbwynt sylfaenol bron fod y swyddogion wedi drwgweithredu. Nawr, gyda'r IOPC, maent yn ymchwilio i'r ffeithiau a'r amgylchiadau ac yn gwneud hynny heb ragfarn."***

Rhanddeiliad yr heddlu, ymchwil rhanddeiliaid yr IOPC 2019

## ■ Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod yr asesiad

***"Mae penderfyniadau yn rhesymegol a theg, ac yn dibynnu ar wybodaeth gan yr arbenigwyr Rhwydwaith Pwnc; mae'r berthynas yn dda."***

***"Cadarnhaodd y llythyr ganlyniad yr ymchwiliad a'r rhesymeg, cyfarwyddyd clir iawn."***

***"...perthynas dda, gallwn gael trafodaethau agored a gonest ynghylch yr ymchwiliad."***

## ■ Adborth gan yr aseswyr

***"Mae gweithwyr yn broffesiynol, amyneddgar a pharchus ac yn dangos lefelau uchel o ddealltwriaeth ac empathi at gwsmeriaid. Nid oedd yn dystiolaeth anecdotaidd o gyfweliadau yn unig: gwrandawodd aseswyr ar rai galwadau byw ac roeddent wedi'u plesio gyda sut oedd staff yn ymdrin â sgyrsiau anodd iawn.***

***"Roedd staff yn ymdrechu i gysylltu ac adeiladu perthnasoedd â grwpiau ac unigolion anodd eu cyrraedd a difreintiedig.***

***"Mae dyhead clir, gwirioneddol i staff ar bob lefel gyflawni canlyniadau perfformiad cryf..."***

# Ceisio adborth gan ein rhanddeiliaid

### Deall hyder

Rydym yn ymgymryd ag arolygon o aelodau'r cyhoedd yn rheolaidd i asesu eu canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o'r heddlu, system gwynion yr heddlu, a'n gwaith.

Ym mis Rhagfyr 2019, cynaliasom ddigwyddiadau ymchwil ymgynghori i'n helpu i ddeall yn fwy manwl y pethau sy'n hybu canfyddiadau'r cyhoedd, neu'n dylanwadu arnynt. Ymchwil ymgynghori yw ymchwil trylwyr i ddarganfod beth mae pobl yn ei gredu a pham. Cafodd dau ddigwyddiad dyddiau llawn eu cynnal gennym yn Llundain a Leeds, a mynychodd 50 aelod o'r cyhoedd y ddau ddigwyddiad a oedd yn cynrychioli demograffeg yr ardal leol yn eang.

Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad arall, a oedd yn archwilio hyder aelodau o'r cyhoedd o gefndiroedd du. Mae deall barn pobl BAME yn ffocws allweddol i ni gan fod ein hymchwil yn dweud wrthym fod ganddynt lai o hyder yn system gwynion yr heddlu. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Llundain ac aeth 20 o bobl iddo. Mae'r canlyniadau bellach yn sail i'n gwaith yn y dyfodol i godi hyder yn yr IOPC a system gwynion yr heddlu ymhlith cymunedau BAME. Er enghraifft, rydym yn archwilio sut allwn ni ddefnyddio'r ymchwil hwn i dargedu'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu ac ymgysylltu'n well â chymunedau BAME.

***"Rydym wedi'u gweld yn newid cryn dipyn mewn blwyddyn ac mewn gwirionedd, o bersbectif gwas sifil, gwyddom pa mor anodd yw newid i sefydliadau mawrion. Mae cyflymder y newid wedi cael cryn argraff arnaf."***

Rhanddeiliad atebolrwydd yr heddlu,
ymchwil rhanddeiliaid yr IOPC 2019

### Adborth gan randdeiliaid

Y llynedd, cynaliasom ymchwil â'n rhanddeiliaid i ddeall eu barn a cheisio adborth ar ein gwaith[29]. Mae eu barn yn bwysig i'n llwyddiant cyffredinol, ac yn awgrym o'u hyder yn ein gwaith.

Mae'r ymchwil yn adrodd stori o newid cadarnhaol. Mae rhanddeiliaid yn adrodd cysylltiadau gwell â'r IOPC mewn cymhariaeth ag unrhyw adeg yn y gorffennol, yn ogystal â gwellhad yn eu ffafriaeth tuag at y sefydliad. Gellir priodoli'r newid cadarnhaol i dri maes:

- newid a groesawir yn fawr mewn ffocws tuag at ddysgu
- gwaith ymgysylltu ac estyn allan gwell gyda rhanddeiliaid
- arweinyddiaeth sy'n gwrando ar bryderon rhanddeiliaid ac yn dangos bwriad i fynd i'r afael â nhw

29. Rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019, gwnaethom gasglu 125 o ymatebion meintiol a chynnal 25 o gyfweliadau ansoddol gyda'n rhanddeiliaid yr heddlu, rhanddeiliaid atebolrwydd yr heddlu a rhanddeiliaid nad ydynt yn heddlu. Mae rhanddeiliaid atebolrwydd yr heddlu yn cynnwys sefydliadau megis HMICFRS, y Coleg, Gwasanaeth Erlyn y Goron a chrwneriaid. Mae rhanddeiliaid nad ydynt yn heddlu yn cynnwys seneddwyr, llywodraeth leol, elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau ffydd.

# Barn ein rhanddeiliaid


## Trosolwg o berfformiad ar feysydd allweddol

Mae gan yr IOPC sgorau effeithiolrwydd net* fel a ganlyn:

| | Rhanddeiliaid sy'n atebol i'r heddlu | Rhanddeiliaid sy'n heddlu | Rhanddeiliaid nad ydynt yn heddlu |
|---|---|---|---|
| Yn sicrhau bod yr heddlu'n gyfrifol am eu gweithredoedd | +46% | +56% | +40% |
| Yn sicrhau bod yr heddlu'n dysgu yn sgil cwynion | +31% | +38% | +21% |

*Effeithiolrwydd net yw'r gyfran o ymatebwyr sy'n credu bod sefydliad yn effeithiol tynnu'r gyfran sy'n credu nad yw'n effeithiol. Mae'r sgôr yn mesur canfyddiad cyffredinol rhanddeiliaid o effeithiolrwydd yr IOPC mewn perthynas â'n cenhadaeth a'n blaenoriaethau. Dengys arwydd plws neu finws o flaen ffigwr p'un a oes gan sefydliad effeithiolrwydd net positif neu negatif.

### Hyderus bod yr IOPC yn delio â'i waith mewn ffordd ddiduedd




Ffynhonnell: Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2019/20.

# Sicrhau ein bod yn sefydliad effeithiol



# Gweithio i wella’n barhaus fel sefydliad achefnogi ein gweithlui gyflawni gwasanaeth cwsmer rhagorol

Fel sefydliad effeithiol ac effeithlon, mae ein ffocws ar ddenu a dargadw gweithlu hynod fedrus, amrywiol, gan roi amgylchedd gweithio da i staff, a sicrhau y cânt eu cefnogi.

**Lle gwych i weithio - yr hyn a ddywed ein staff**

Mae sicrhau bod ein staff yn teimlo wedi’u cymell, wedi’u cefnogi ac yn falch o weithio i’r IOPC yn bwysig wrth ein gwneud yn lle gwych i weithio. Mae ymgysylltiad gweithwyr uwch hefyd yn gysylltiedig â pherfformiad sefydliadol uwch. O gasglu adborth i fonitro cynnydd, mae arolygon staff rheolaidd yn ein helpu i fesur yr ymgysylltiad hwn a gwella ein perfformiad.


Bob blwyddyn, rydym yn cymryd rhan yn yr arolwg staff Gwasanaeth Sifil. Mae ein harolwg staff yn ddangosydd o ba mor dda yr ydym yn gwneud wrth wneud yr IOPC yn lle gwych i weithio. Roeddem yn disgwyl gweld newid yn y canlyniadau, ond roedd y canlyniadau hyn y tu hwnt i ddisgwyliadau gyda meysydd megis dealltwriaeth o’n hamcanion sefydliadol a phwrpas bellach o fewn ystod perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil.

Derbyniodd arolwg staff Hydref 2019 gyfradd ymateb o 80%, cynnydd o bum pwynt canran o’i gymharu â 2018. Roedd y gyfradd ymateb gyffredinol i’r Gwasanaeth Sifil yn 67%. Roedd uchafbwyntiau yn cynnwys:

- **bodlonrwydd staff yn cynyddu ar draws bron pob maes**
- **o'r 30 categori a fesurwyd, dangosodd 21 welliannau ystadegol arwyddocaol**
- **ac mewn rhai achosion, gwelwyd gwelliant o bron i 25%**

Mae ein perfformiad mewn nifer o gategorïau bellach yn unol â thimau perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil. Mae angen i ni edrych yn fanylach ar rai categorïau ac ystyried sut allwn ni eu gwella, ond ar y cyfan, mae’r canlyniadau yn awgrymu ein bod ar y trywydd cywir.

## Canlyniadau arolwg staff 2019



# Staff hapusach ac a gefnogir yn well

**Mewn ymateb i ganlyniadau arolwg staff blaenorol a amlygodd rwystredigaeth gyda phrosesau recriwtio, rydym yn symleiddio a gwella ein prosesau recriwtio, yn ogystal â datblygu rhaglenni prentis ac intern.**

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lansio rhaglen arwain a rheoli newydd, cyflwyno siarter arwain, a chyflwyno rhaglen mentora a hyfforddi i bob staff. Gwnaethom hefyd ddechrau ar waith i gyflwyno llwyfan dysgu digidol newydd, a fydd yn rhoi mynediad i staff at ddysgu hyblyg mewn amser real.

Gwnaethom wella mynediad at fentrau lles a gwiriadau iechyd gyda darparwr cymorth i weithwyr newydd a datblygu strategaeth llesiant gweithwyr. Gwnaethom hefyd gyflwyno Model Cymorth i Weithwyr gyda Straen, Trawma a Gwytnwch (STREAM), system cymorth gan gyfoedion unigryw ar gael i bob aelod o staff sy'n dioddef straen, gwytnwch isel neu amlygiad i drawma.

Rydym yn cydnabod bod rheoli trosiant staff ac absenoldeb yn elfennau pwysig wrth sicrhau bod gennym weithlu hynod fedrus. O 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020, roedd trosiant[30] yn 5.77%, llai na'r trosiant o 9.35% yn y flwyddyn flaenorol. Roedd salwch ac absenoldeb staff yn 2.8%, is na chyfradd y llynedd o 3.02%.

30. Trosiant staff yw'r ganran o weithwyr sy'n gadael yr IOPC ac yn cael eu disodli gan weithwyr newydd.

## Astudiaeth achos

# Cefnogi llesiant staff

Golyga natur ein gwaith fod rhaid i'n staff weithiau ddelio â sefyllfaoedd anodd a gofidus, megis mynychu digwyddiad angheuol. Gwytnwch – y gallu i adfer yn sydyn ar ôl sefyllfaoedd anodd - gall gael ei effeithio gan amgylchiadau personol neu'n gysylltiedig â gwaith.

I gefnogi llesiant, gwnaethom greu Model Cymorth i Weithwyr gyda Straen, Trawma a Gwytnwch (STREAM) i helpu staff yn ystod adegau o straen, gwytnwch isel neu amlygiad i drawma. Mae pedwar deg saith o staff wedi cael eu hyfforddi fel ymarferwyr STREAM, gyda 166 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn ers lansio. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi staff a fynychodd olygfa saethu angheuol.

Ym mis Tachwedd 2019, siaradodd ymarferydd STREAM mewn digwyddiad Wellbeing@Work cenedlaethol a fynychwyd gan dros 200 o bobl. Ymunodd ag aelodau panel o Santander, Thales Group, Deloitte, a Headspace – sefydliad sy'n adnabyddus am ei ap myfyrio – gan drafod y ffyrdd yr ydym yn sicrhau cymorth llesiant i weithwyr.

Ers hynny rydym wedi darparu cymorth i sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn cyflwyno mentrau tebyg, yn cynnwys Ombwdsmon yr Heddlu Gogledd Iwerddon a darparwr llety myfyrwyr.

***"Mae ganddo gynllun cefnogi cyfoedion dilys, sy'n sicrhau bod gan staff rywun i droi atynt bob amser a sicrhau bod iechyd meddwl cydweithwyr nawr yn cael ei drafod yn y swyddfa ac ar flaen y glad o ran penderfyniadau rheoli."***

Adborth ar asesiadau STREAM

# Sefydliad mwy effeithlon

**Gwnaethom lansio cynllun arloesi a gwella i staff rannu eu syniadau ynghylch ein gwneud yn sefydliad mwy effeithlon. Ers ei gyflwyno, mae 126 o awgrymiadau am welliannau gan staff wedi'u hystyried. Arweiniodd un o'r awgrymiadau at lansio grŵp i reoli'n well y galw am gyfwelwyr uwch a darparu cyngor i gefnogi gwneud penderfyniadau yn ystod ymchwiliadau.**

I ddwyn ynghyd a datblygu ein harbenigedd mewnol mewn meysydd allweddol, gwnaethom ddatblygu Grwpiau Ymarferwyr Gweithredol. Mae'r grwpiau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- datgelu
- ymchwiliadau digidol
- cyfweld ymchwiliol
- argymhellion dysgu
- ysgrifennu adroddiadau

Mae'r grwpiau hyn wedi ymrwymo i wella ansawdd ac effeithiolrwydd ein gwaith trwy gynyddu gwybodaeth a setiau sgiliau arbenigol. Er enghraifft, gwnaethom sefydlu grŵp ymchwiliadau digidol i wella ein galluoedd a gwybodaeth am dystiolaeth ddigidol. Mae chwe aelod o staff wedi cael eu hyfforddi fel arbenigwyr ymchwilio digidol. Maent bellach yn darparu cymorth a chyngor ar ymchwiliadau, gan fynd i'r afael â dros 130 o geisiadau am gymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu systemau ac offer gwell i'n staff ac yn ystod y flwyddyn gwnaethom gwblhau ein prosiect trawsnewid TGCh. Helpodd hyn ein staff i symud yn gyflym at weithio o adref yn ystod pandemig COVID-19.

Cyhoeddir rhagor o wybodaeth am ein cyllideb, data'r gweithlu a pherfformiad yn ein hadroddiad blynyddol, ar gael yn www.policeconduct.gov.uk

# Edrych tua'r dyfodol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu enghreifftiau o sut ydym yn defnyddio gwersi o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona, sicrhau atebolrwydd a chefnogi arferion gorau. Er y gwyddom y gallwn ac y gwnawn wahaniaeth cadarnhaol, cydnabyddwn fod cymaint mwy i'w wneud eto.

Mae ein cynlluniau yn uchelgeisiol, ond rydym yn benderfynol o gyflwyno rhagor o welliannau yn ein gwaith ein hunain ac ar draws y system gwynion ehangach. Yn ganolog i hyn bydd ein ffocws parhaus ar wrando ar y rheiny sydd wedi dod i gysylltiad â'r system, ac ar y rheiny a all ddarparu cipolwg sy'n ein helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth.



Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

I ddysgu mwy am ein gwaith neu i wneud cais am yr adroddiad hwn ar ffurf arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:


**www.policeconduct.gov.uk**

**@policeconduct**

**enquiries@policeconduct.gov.uk**

**0300 020 0096**

Cyfnewid testun: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom yn:

**Independent Office for Police Conduct**
**10 South Colonnade**
**Canary Wharf**
**London E14 4PU**


We welcome telephone calls in Welsh
*Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg*

This document is also available in English
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.*


Medi 2020